

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

58/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

28/09/2017

# Y Cynnig Gofal Plant i Gymru – Ymchwil â Rhieni Plant 1-5 oed

## Y Cynnig Gofal Plant i Gymru – Ymchwil â Rhieni Plant 1-5 oed

**Jo Coates and Nina Prosser**

Coates, J., Prosser, N. (2017). Y Cynnig Gofal Plant i Gymru - Ymchwil â Rhieni Plant 1-5 oed . Caerdydd: Llywodraeth Cymru, 58/2017.  
Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/the-childcare-offer-for-wales/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Jo Coates

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 5540

E-bost: [joanne.coates@llyw.cymru](mailto:joanne.coates@llyw.cymru)

## **Tabl cynnwys**

Rhestr o acronymau .....	2
Crynodeb Gweithredol.....	3
1 Cyflwyniad .....	10
2 Methodoleg .....	14
3 Ymgysylltu â Rhieni – Canfyddiadau Allweddol .....	17
4 Casgliadau ac Argymhellion .....	38

## Rhestr o acronymau

ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
EPS	Yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
IRP	Rhaglen Ymchwil Fewnol
STEM	Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg

## Crynodeb Gweithredol

1. Comisiynwyd y Rhaglen Ymchwil Fewnol (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru) ym mis Medi 2016 gan yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar i wneud gwaith ymchwil gyda rhieni a gwarcheidwaid. Diben y gwaith ymchwil oedd gwella dealltwriaeth o brofiadau rhieni a gwarcheidwaid o'u trefniadau gofal plant presennol, a'u gwybodaeth, agweddau a chanfyddiadau yn ymwneud â chynnig gofal plant arfaethedig Llywodraeth Cymru.
2. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gofal plant yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu teuluoedd yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae Rhaglen Lywodraethu 2016 Llywodraeth Cymru, 'Symud Cymru Ymlaen', yn nodi'r dyhead i ddarparu cynnig gofal plant sy'n cynnwys 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim am 48 wythnos o'r flwyddyn ar gyfer rhieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed yng Nghymru. Mae'r cynnig gofal plant yn ceisio dileu rhwystrau i sicrhau cyflogaeth ar gyfer rhieni sydd am weithio neu gychwyn busnes ond sy'n cael eu rhwystro ar hyn o bryd oherwydd pwysau gofal plant.
3. Ym mis Awst 2016, lansiodd yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar ymgyrch #TrafodGofalPlant er mwyn ymgysylltu â rhieni a darparwyr ar y cynnig gofal plant i Gymru. Defnyddiwyd yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r cynnig gofal plant, deall yr hyn sy'n rhwystro mynediad i ofal plant ar gyfer rhieni ar hyn o bryd, a rhoi cyfle i rhieni a darparwyr godi unrhyw bryderon ac awgrymu elfennau pwysig y cynnig iddynt. Roedd cam cyntaf yr ymgyrch, a gyflwynwyd rhwng mis Awst 2016 a mis Ebrill 2017, yn cynnwys nifer o weithgareddau ymgysylltu gwahanol, gan gynnwys arolwg ar-lein, digwyddiadau ar gyfer darparwyr gofal plant, sioe deithiol #TrafodGofalPlant a fu'n ymweld â 15 o drefi a nifer o leoliadau gofal plant, a gohebiaeth uniongyrchol â rhieni a darparwyr a gyflwynodd wybodaeth am eu safbwyntiau a'u profiadau i flwch negeseuon e-bost #TrafodGofalPlant<sup>1</sup>.
4. Er mwyn casglu data ansoddol manwl i lywio cynllun a darpariaeth y cynnig gofal plant, gofynnodd yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar i'r Rhaglen Ymchwil Fewnol (IRP) gynnal cyfres o chwe grŵp ffocws yn cynnwys rhieni a gwarcheidwaid plant 1-5 oed mewn chwe lleoliad ledled Cymru: Caernarfon, Caerdydd a'r Fro, Llandysul, Abertawe, Tredegar a Wrecsam. Aeth yr ymchwilwyr ati i hwyluso saith grŵp ffocws, gan gynnwys grŵp ffocws cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yng Nghaernarfon. Cafodd y grwpiau ffocws eu cynnal a'u hwyluso mewn lleoliadau gofal plant, gan ganolbwyntio'n benodol ar ganolfannau plant neu ddarpariaeth gofal plant integredig Dechrau'n Deg. Defnyddiwyd rhwydweithiau'r Trydydd Sector a'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r grwpiau ffocws yn eang ymysg rhieni a gwarcheidwaid nad ydynt yn mynychu darpariaeth Dechrau'n Deg ar hyn o bryd. Roedd y grwpiau ffocws yn cynnwys menywod yn bennaf â statws cyflogaeth gwahanol, gan gynnwys gweithwyr llawn amser, rhan-amser, hunangyflogedig, menywod ar absenoldeb mamolaeth neu fenywod di-waith. Roedd y cyfranogwyr yn dod o deuluoedd dau riant ac un riant. Er mwyn ymateb i'r diddordeb yn y gwaith ymchwil a sbardunwyd gan ymgyrch ar-lein

---

<sup>1</sup> Bydd canfyddiadau ymgyrch #TrafodGofalPlant yn cael eu cyhoeddi ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch ar gael yn <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/childcare/talk-childcare/?skip=1&lang=cy>

#TrafodGofalPlant, cynhaliwyd dau gyfweiliad ffôn ychwanegol ag unigolion nad oeddent yn gallu mynychu'r grwpiau ffocws ond a oedd yn byw yn yr un ardaloedd â'r grwpiau ffocws. Hefyd, er mwyn manteisio'n llawn ar fewnbwn y boblogaeth darged, penderfynwyd cyfeirio unrhyw ymholiadau i'r ymgyrch #TrafodGofalPlant mewn lleoliadau lle nad oedd cynlluniau ar waith i hwyluso grŵp ffocws.

5. Amcanion y gwaith ymchwil ansoddol oedd:

- gwella dealltwriaeth o farn rhieni ar eu trefniadau gofal plant presennol ac, yn benodol, unrhyw heriau i rieni a phlant sy'n deillio o'r trefniadau presennol;
- pwysu a mesur dealltwriaeth bresennol rhieni o addysg gynnar a'r gwahaniaeth rhwng addysg gynnar a gofal plant 'ffurfiol';
- asesu estyniad arfaethedig y cynnig gofal plant o safbwynt:
  - y model darpariaeth mwyaf dymunol;
  - y dull defnyddio a ragwelir; a'r
  - potensial a'r awydd i gynyddu oriau cyflogaeth trwy fanteisio ar y cynnig gofal plant
- defnyddio canfyddiadau'r ymchwil i wneud argymhellion i lywio'r broses o ddatblygu polisi a darparu'r cynnig gofal plant ychwanegol.

## Canfyddiadau Allweddol

**6. Roedd y mathau o ofal plant sy'n cael eu defnyddio gan rieni yn amrywio yn ôl amgylchiadau teuluoedd gwahanol ac ymrwymadau gwaith rhieni. Hefyd, i ryw raddau roeddent yn dibynnu ar y gwahanol fathau o ofal plant sydd ar gael yn yr ardal lle maent yn byw.** Hefyd, nodwyd yn gyson ym mhob lleoliad bod rhieni yn defnyddio cyfuniad o wahanol fathau o ofal plant mewn wythnos arferol yn unol â'u hamgylchiadau. Roedd hyn yn cynnwys rhieni (mamau'n bennaf) yn gofalu am eu plant yn llawn amser, meithrinfeydd preifat, darpariaeth Dechrau'n Deg<sup>2</sup>, gofal plant anffurfiol (gan neiniau a theidiau yn bennaf) a gwarchodwyr plant.

**7. Roedd y mathau o ofal plant sy'n cael eu defnyddio yn amrywio mewn rhai ardaloedd daearyddol gwahanol, mewn rhai achosion oherwydd argaeledd gwahanol mathau penodol o ofal plant yn yr ardaloedd hynny.** Er enghraifft, nodwyd bod mwy o ddefnydd o ofal gan warchodwyr plant (ac agweddau mwy cadarnhaol tuag ato) mewn ardaloedd gwledig fel Llandysul. Mewn ardaloedd eraill, roedd dewisiadau rhieni ynglŷn â phwy sy'n gofalu am eu plant yn amrywio; yn

---

<sup>2</sup> Mae Dechrau'n Deg ar gael i blant o ddwy i dair oed mewn teuluoedd sy'n byw yn ardaloedd cymwys o Gymru. Mae plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn derbyn hyd at 12.5 awr yr wythnos o ofal plant o ansawdd.

Nhredegar, roedd rhieni yn fwy tebygol o ofyn i neiniau a theidiau'r plant, ac aelodau eraill y teulu, ddarparu gofal plant anffurfiol.

**8. Daeth sawl ffactor i'r amlwg fel yr hyn sy'n penderfynu'n bennaf sut mae rhieni yn dewis ac yn cyfuno gofal plant, sef: cost, lleoliad, ac i ba raddau y mae gofal plant yn cyd-fynd ag ymrwymadau gwaith.** Nododd rhieni ym mhob grŵp fod costau meithrinfeydd yn uchel iawn o gymharu â chyflogau cyfartalog, a bod llawer o'r arian sy'n cael ei ennill gan famau drwy weithio'n rhan-amser yn cael ei ddefnyddio bron yn gyfan gwbl i dalu am ofal plant. Roedd rhai rhieni'n cwestiynu a yw ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng gweithio a gofalu am blant yn fuddiol yn ariannol. Daeth i'r amlwg mai cost yw'r ffactor unigol pwysicaf sy'n atal teuluoedd rhag dewis y trefniadau gofal plant mwyaf manteisiol ar gyfer eu hanghenion.

**9. Nododd llawer o famau fod y broses o ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cael plant yn heriol iawn oherwydd yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng eu dyheadau gyrfa a'u cyfrifoldebau gofal. Cyfeiriodd sawl un at y diffyg cymorth sydd ar gael i wneud hyn.** Yn gyntaf, cyfeiriodd mamau at y problemau y maent yn eu hwynebu wrth ddychwelyd i'r farchnad lafur yn dilyn cyfnod estynedig allan o waith ar ôl cael plant. Yn ail, cyfeiriwyd at y ffaith ei bod yn anodd i'r rhai sy'n gweithio ar hyn o bryd sicrhau cydbwysedd rhwng ymrwymadau gwaith a gofal plant.

**10. Mae problemau'n ymwneud ag anhyblygrwydd cyflogwyr o safbwynt oriau gwaith a'r diffyg cefnogaeth ar gyfer mamau sy'n dychwelyd i'r gwaith yn creu rhwystrau sylweddol i ddewis cyflogaeth sy'n addas i sgiliau menywod.** Mae'r sefyllfa hon yn waeth mewn ardaloedd gwledig lle mae llai o swyddi ar gael na mewn ardaloedd trefol, ac mae'n fwy tebygol o arwain at fenywod yn gadael y farchnad lafur yn gyfan gwbl. Hefyd, mae'r angen i famau weithio'n rhan-amser, er mwyn treulio amser gyda'u plant a chadw costau gofal plant yn isel, yn ei gwneud yn anodd iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa.

**11. Ar gyfer rhieni plant sy'n derbyn darpariaeth Dechrau'n Deg, Cyfnod Sylfaen neu ddarpariaeth gofal plant ffurfiol arall, neu gyfuniad o'r tri, daeth i'r amlwg mai parhad o ran gofal yw'r ffactor pwysicaf wrth drefnu a chyfuno darpariaeth gofal plant.** Roedd gofal cofleidiol yn cael ei werthfawrogi'n benodol gan rieni gan ei fod yn golygu y gallant fanteisio ar flociau o amser i gwblhau gweithgareddau eraill yn y gweithle neu'r cartref. Fodd bynnag, mae'n rhoi straen ariannol ychwanegol sylweddol ar rieni yn aml. Mewn rhai ardaloedd Dechrau'n Deg lle mae gan blant 2-3 oed hawl i 2.5 awr o ofal plant am ddim bob dydd, nodwyd bod rhieni yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth hon, ond nad yw'r 2.5 awr ar gyfer eu plant yn ddigon i rieni fynd allan i weithio neu ailhyfforddi. I'r rhai sydd â phlant yn y Cyfnod Sylfaen, nodwyd bod achosion lle mae darpariaeth gofleidiol i gludo plant rhwng meithrinfa ac ysgol wedi bod yn bwysig i'w galluogi i weithio oriau hirach.

**12. Roedd hyblygrwydd yn thema bwysig ym mhrofiadau rhieni o wneud a rheoli eu trefniadau gofal plant ar hyn o bryd.** Oherwydd natur anrhagweladwy meithrin plant, roedd rhieni yn teimlo bod hyblygrwydd gan gyflogwyr a darparwyr gofal plant yn hollbwysig er mwyn gwneud trefniadau gofal plant sy'n addas i'w teuluoedd.

**13. Roedd rhieni yn teimlo y byddai'r oriau ychwanegol sy'n cael eu darparu o dan y cynnig gofal plant yn golygu y byddai eu plant yn cael mwy o amser mewn lleoliadau gofal plant ffurfiol, a fyddai'n helpu i'w paratoi i fynd i'r ysgol.** Mae hyn yn ategu agwedd rhieni ym mhob un o'r grwpiau ffocws bod gofal plant ffurfiol yn fwy addysgiadol a llesol na chadw plant gartref, a bod mwya'n byd o ofal plant ffurfiol a dderbynnir, mwya'n byd yw'r effaith gadarnhaol ar eu datblygiad.

**14. Croesawyd y posibilrwydd y byddai'r cynnig yn helpu rhieni, a mamau yn benodol, i chwilio am waith yn haws neu gynyddu eu horiau gwaith yn eu swydd bresennol heb orfod poeni am drefnu gofal amgen addas ar gyfer eu plant.** Yn ei dro, byddai hyn yn fanteisiol i aelodau eraill y teulu sy'n darparu gofal plant anffurfiol, yn enwedig neiniau a theidiau sydd, yn ôl rhieni, yn gwneud sawl aberth i ddarparu gofal plant anffurfiol.

**15. Roedd rhieni yn teimlo y byddai'r amser a'r arian sy'n cael eu harbed drwy fanteisio ar y cynnig yn rhyddhau mwy o amser o ansawdd ar gyfer yr uned deuluol, fel penwythnosau, a oedd yn cael ei aberthu weithiau i'r naill riant neu'r llall weithio, neu oherwydd nad oedd llawer o arian ar ôl i fynd allan.** Ond yn fwy na hyn, byddai modd defnyddio'r amser er budd rhieni yn unig, naill ai i'w galluogi i weithio neu i gael amser iddynt eu hunain i gymdeithasu neu ddilyn eu diddordebau. Cyfeiriodd rhieni at fanteision lluosog y teimlwyd eu bod yn cael effaith ar lesiant cyffredinol y teulu.

**16. Codwyd pryderon ynglŷn â'r cynnig: y prif bryder oedd a yw'r cynnig yn ystyried y straen ychwanegol posibl ar y galw am ofal plant a allai ddeillio o'r cynnig.** Roedd hwn yn bryder penodol i'r rhai sydd eisoes yn anfon eu plant i ddarpariaeth gofal plant ffurfiol, sef na fyddai ganddynt yr un mynediad i ofal plant oherwydd prinder staff i ddiwallu anghenion y sector, a fyddai'n lleihau hyblygrwydd yn hytrach na'i wella.

**17. Hefyd, trafodwyd darpariaeth Gymraeg fel opsiwn a fyddai'n cael ei groesawu fel bod rhieni yn gallu dewis darparwyr cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.** Fodd bynnag, nodwyd bod rhai rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau, sef diffyg darpariaeth Gymraeg mewn ardaloedd di-Gymraeg. Dywedodd rhieni fod y ffaith nad oes darparwyr cyfrwng Cymraeg ar gael yn lleol yn dylanwadu ar eu penderfyniad i beidio â dewis darpariaeth Gymraeg.

**18. Mae angen ystyried sefyllfaoedd teuluoedd – trafododd llawer o rieni sefyllfa wahanol eu teuluoedd, yn enwedig fel unig rieni, gan bwysleisio**



**pwysigrwydd y cynnig ar sail trothwyon cymhwysedd gwahanol ar gyfer amgylchiadau gwahanol.** Hefyd, awgrymwyd y bydd angen o bosibl i'r cynnig ystyried cyfleu'r telerau a'r buddion yn wahanol ar sail lleoliad a chefnidir diwylliannol.

## **Argymhellion**

19. Dylid nodi bod yr argymhellion hyn wedi'u llywio gan safbwyntiau rhieni a gwarcheidwaid, ac o ganlyniad maent yn cynnig tystiolaeth ddangosol o un safbwynt er mwyn llunio'r argymhellion canlynol. Nid oedd cwrmpas y gwaith ymchwil hwn yn ceisio cynnwys safbwyntiau a phrofiadau rhanddeiliaid allweddol eraill fel plant neu ddarparwyr gofal plant.

### **1. Dylai'r cynnig gael ei gynllunio i sicrhau defnydd hyblyg gan rieni fel bod modd i gynifer o bobl â phosibl fanteisio arno**

Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu y byddai'r cynnig yn apelio mwy at rieni pe baent yn gallu ei ddefnyddio mewn ffordd hyblyg i ddiwallu eu hanghenion penodol. Gallai'r broses o gyflwyno'r cynnig ystyried rhoi cyfle i rieni ddewis (i) faint o'r 30 awr y byddant yn manteisio arnynt; (ii) y darparwr sy'n gyfrifol am y gofal plant a (iii) sicrhau bod gofal plant digonol ar gael yn ystod gwyliau ysgol. Hefyd, mae rhieni yn nodi ei bod yn bwysig i'r cynnig gael ei ddarparu gan amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys: meithrinfeydd preifat, gwarchodwyr plant a meithrinfeydd mewn ysgolion. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau lle mae'r dewis o ddarparwr yn gyfyngedig.

### **2. Dylai'r cynnig gael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n ystyried amrywiaeth eang o amgylchiadau cyflogaeth a hyfforddiant**

Amlygodd y grwpiau ffocws amgylchiadau gwaith amrywiol rhieni. Mae'n bosibl bod cyflogaeth mamau yn benodol yn anghonfensiynol oherwydd yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng gofal plant a chyflogaeth. Mae'n cynnwys gwaith rhan-amser, contractau dim oriau, gwirfoddoli ac ailhyfforddi. Wrth ystyried cymhwysedd ar gyfer y cynnig, dylai'r polisi ystyried yr amgylchiadau gwahanol ac a oes modd cynllunio'r cynnig i'w ddefnyddio mewn ffordd hyblyg gan y rhai sydd mewn sefyllfaoedd cyflogaeth ansefydlog, dros dro neu drosiannol. Hefyd, dylid ystyried hyfywedd sicrhau bod rhieni sy'n ailhyfforddi ar hyn o bryd yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth 30 awr. Byddai hyn yn llwyddo i gefnogi'r rhai sy'n ailhyfforddi mewn proffesiwn newydd ac yn debygol o ddychwelyd i'r farchnad lafur maes o law.

### **3. Dylai'r broses o gyflwyno'r cynnig gynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gyflogwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cynnig a hyrwyddo/hwyluso cymorth fel bod cyflogwyr yn gallu cyflogi mamau sy'n dychwelyd i'r byd gwaith**

Cyfeiriodd llawer o famau at nifer o rwystrau i ddychwelyd i'r gweithle ar ôl cael plant, gyda nifer ohonynt yn nodi diffyg cymorth gan ddarpar gyflogwyr neu gyflogwyr presennol i'w galluogi i wneud hynny. Ym marn rhieni, mae yna ddiffyg dealltwriaeth

o natur y rhwystrau sy'n wynebu rhieni wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng gofal plant a chyflogaeth. Wrth ddatblygu'r polisi, gall Llywodraeth Cymru ystyried hwyluso ymgysylltiad â chyflogwyr allweddol yng Nghymru wrth i'r cynnig gael ei gyflwyno. Byddai hyn yn ceisio cynyddu dealltwriaeth o'r cynnig a lleihau'r rhwystrau sy'n wynebu menywod wrth ddychwelyd i'r gweithle.

#### **4. Dylai'r broses o ystyried cymhwysedd sicrhau bod gwahanol fathau o deuluoedd yn gallu manteisio ar y cynnig a bod y cynnig yn gost-effeithiol ar gyfer y teuluoedd hynny**

Mae trafodaethau ar gymhwysedd a chwestiynau ynglŷn â phryd y byddai penderfyniadau ar gymhwysedd yn cael eu gwneud wedi amlygu amgylchiadau a sefyllfaoedd gwahanol teuluoedd. Dylai penderfyniadau yn ymwneud â chymhwysedd sicrhau bod y cynnig yn addas ar gyfer unig rieni a theuluoedd dau riant, a'i fod yn gost-effeithiol hefyd ar gyfer teuluoedd unig riant wrth ystyried eu horiau gwaith a'u hawl i fudd-daliadau.

#### **5. Dylid ystyried sicrhau bod grwpiau diwylliannol gwahanol yn derbyn gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant, gan deilwra'r wybodaeth yn unol â hynny**

Mae canfyddiadau dangosol gan unigolion sydd wedi mudo i Gymru wedi dangos bod llai o ymwybyddiaeth o'r system gofal plant yng Nghymru a'i manteision posibl ymysg y grwpiau hyn. Hefyd, gall fod rhai canfyddiadau negyddol o ddiogelwch ac amddiffyn plant mewn darpariaeth gofal plant gyhoeddus a phreifat. Dylai'r broses o gyflwyno'r cynnig ystyried natur a chynnwys y wybodaeth ar gyfer teuluoedd cymwys, a'r amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu sydd ei hangen o bosibl i sicrhau bod grwpiau anodd eu cyrraedd yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am dderbyn y cynnig ai peidio. Gallai hyn gynnwys cyfieithu'r wybodaeth i sawl iaith ac ystyried ffynonellau amrywiol fel cyfrwng i gyflwyno'r wybodaeth.

#### **6. Mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod rhieni yn ffafrio trefn sy'n cyfuno addysg gynnar a gofal plant ffurfiol i hwyluso cyfleoedd i rieni wneud gwaith am dâl neu ailhyfforddi. Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil er mwyn deall sut y gellid sicrhau hyn ar gyfer plant sy'n derbyn addysg gynnar a gofal plant ffurfiol.**

Mewn achosion lle mae plant yn derbyn cyfuniad o ddarpariaeth addysg gynnar (h.y. o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-4 oed) a gofal plant ffurfiol, dywedodd rhai rhieni fod darparu cludiant rhwng y darparwr gofal plant ffurfiol a'r ysgol sy'n darparu addysg gynnar wedi bod yn ffactor pwysig i'w galluogi i weithio. **Er na fydd y cynnig hwn yn effeithio ar ddarpariaeth Dechrau'n Deg**, dywedodd rhieni plant sy'n derbyn darpariaeth Dechrau'n Deg (gofal plant ffurfiol sydd ar gael i blant 2-3 oed mewn ardaloedd penodedig am 2.5 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos o'r flwyddyn) fod y blociau amser byrrach yn cael eu gwerthfawrogi ond nad ydynt yn ddigon i'w helpu i ddychwelyd i'r farchnad lafur.

Mae'r data yn dangos y byddai angen i'r broses o ddarparu gwasanaeth 30 awr ystyried sut y gallai addysg gynnar a gofal plant ffurfiol gael eu darparu'n ddi-dor fel bod modd i rieni weithio. Nodir bod angen ymchwilio ymhellach i ymarferoldeb darparu gwasanaeth o'r fath mewn awdurdodau lleol gwahanol yng Nghymru er mwyn deall posibiliadau a chyfyngiadau darparu gofal cofleidiol digonol.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r gofyniad i sicrhau darpariaeth gofal plant ffurfiol, fforddiadwy o ansawdd da wedi tyfu yn sgil y duedd gynyddol i famau ddychwelyd i'r gweithle ar ôl cael plant, a'r cynnydd sy'n deillio o hynny yn nifer yr aelwydydd sydd â dau incwm. Ceir sawl mantais i weithredu gofal plant fforddiadwy o ansawdd da. I rieni a mamau yn benodol, gall y cyfle i ddychwelyd i'r gwaith yn gynnar arwain at fanteision amlwg o safbwynt cynyddu incwm yr aelwyd (Rutter, 2015) a rhoi cyfleoedd i fenywod barhau a chamu ymlaen yn eu gyrfaoedd. Os yw gofal plant yn fforddiadwy, mae modd defnyddio'r cynnydd mewn incwm aelwyd i wella sefyllfa ariannol hirdymor y teulu, gyda'r posibilrwydd o ddileu tlodi ymysg teuluoedd difreintiedig. Mae galluogi mwy o bobl i weithio yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol hirdymor ar gyfer yr economi; os oes mwy o bobl yn gweithio, mae llai o bobl yn dibynnu ar fudd-daliadau, ac mae mwy ohonynt yn gallu cyfrannu at yr economi drwy eu statws fel trethdalwyr. Hefyd, mae ymchwil academiaidd wedi amlygu effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau cymdeithasol a datblygiadol y plant, ac ar fesurau parodrwydd ar gyfer ysgol (Paull, 2017). I blant o deuluoedd sy'n byw mewn tlodi, gall gofal plant ffurfiol gau'r bwch datblygiadol rhwng plant difreintiedig a'u cymheiriaid, ond mae hyn yn dibynnu ar (i) dwyster y ddarpariaeth, (ii) ansawdd y gofal plant sy'n cael ei ddarparu fel rhan o'r ymrwymiad polisi a (iii) ansawdd y gofal plant presennol neu bosibl (Blanden et al, 2016).

1.2 Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, mae angen cymorth y llywodraeth ar deuluoedd i ddarparu gofal plant â chymhorthdal. Hyd at 1994, pan gyflwynwyd y gostyngiad cyntaf yn y dreth ar gyfer gofal plant yng Nghymru a Lloegr, nid oedd y llywodraeth wedi darparu unrhyw gymorth ffurfiol ar gyfer rhieni ag anghenion gofal plant. Ysgogwyd y newid gan y ffaith fod y farchnad lafur yn cynnwys rhagor o fenywod, a chyflwynwyd nifer o ddiwygiadau er mwyn gwella cyflenwad a fforddiadwyedd gofal plant. Yn 2004, cyflwynodd y strategaeth ddeng mlynedd, *Choice for parents, the best start for children* fesurau newydd a oedd yn sylfaen i ddarparu gofal plant, gan ganolbwyntio ar feysydd fel y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, cyflenwad gofal plant, ansawdd a fforddiadwyedd. Dilynwyd y strategaeth hon gan y *Ddeddf Gofal Plant* (2006), a'i gwnaeth yn ofynnol i awdurdodau yng Nghymru a Lloegr sicrhau, lle y bo modd, bod gofal plant digonol ar gael ar gyfer rhieni sydd eisiau gweithio neu hyfforddi.

1.3 O safbwynt fforddiadwyedd, mae awdurdodau lleol yn derbyn rhywfaint o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno darpariaeth am ddim, ac mae rhieni wedi cael hawl i dderbyn talebau gofal plant, a'r hawl i gael o leiaf 10 awr o addysg gynnar am ddim bob wythnos ar gyfer plant tair a phedair oed<sup>3</sup>. Hefyd, mae gan blant dwy oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru hawl i gael 12.5 awr yr wythnos o ofal plant drwy ddarpariaeth Dechrau'n Deg<sup>4</sup>.

1.4 Fel rhan o'i manifesto ar gyfer Etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016, ymrwymodd Llafur Cymru i ddarparu cyfanswm o 30 awr o ofal plant am ddim am 48 wythnos o'r flwyddyn ar gyfer rhieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed (Llafur Cymru, 2016).

<sup>3</sup> Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am benderfynu sawl awr yr wythnos o ofal plant y mae gan rieni hawl iddynt.

<sup>4</sup> Cyfeirir at hyn fel *Sure Start* yn Lloegr.

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i dreialu a chyflwyno'r cynnig yn llawn erbyn diwedd tymor y Cynulliad yn 2020. Byddai'r cynnig yn darparu hyd at 20 awr o ofal plant ar gyfer rhieni sy'n gweithio, yn ogystal â 10 awr sylfaenol o addysg gynnar sydd ar gael ar hyn o bryd i bob plentyn tair a phedair oed. Amcan y cynnig gofal plant yw cyflawni un (neu fwy) o'r nodau polisi canlynol:

- Galluogi mwy o rieni, a mamau yn benodol, i ddychwelyd i'r gwaith;
- Cynyddu incwm gwario pobl sy'n gweithio, a helpu i wrthweithio tlodi ar gyfer pobl mewn swyddi sy'n talu cyflogau isel; a
- I annog datblygiad plant a sicrhau bod plant yn barod i fynd i'r ysgol.

1.5 Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod costau gofal plant yn rhwystr sylweddol i ddefnyddio darpariaeth, a bod costau gofal plant ar gyfer plant o dan bump oed wedi cynyddu'n gyson ac yn gynt na chyfradd chwyddiant rhwng 2014 a 2015 (Rutter, 2015). Mae'r gost yn rhy uchel i deuluoedd difreintiedig sydd am fanteisio ar ddarpariaeth gofal plant, ac o ganlyniad, mae'n eu hatal rhag chwilio am waith. Felly, mae'r broses o ddarparu nifer sylweddol yn fwy o oriau gofal plant am ddim yn gwneud gofal plant ffurfiol yn fwy fforddiadwy ac yn rhyddhau amser i rieni wneud gwaith am dâl.

1.6 O safbwynt datblygiad plant, mae tystiolaeth yn dangos bod darparu addysg gynnar mewn lleoliadau gofal plant ffurfiol yn arwain at rai manteision cyfyngedig i blant. Mae gwaith ymchwil yn ymwneud ag effaith addysg cyn ysgol am ddim yn Lloegr wedi dangos bod plant o gefndiroedd difreintiedig yn elwa o safbwynt deilliannau datblygiadol yn y tymor byr, ond bod y cynnydd hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar ddwystr y gofal, ansawdd y gofal plant am ddim, a'r gymhariaeth â'r gofal a gawsant cyn derbyn yr oriau am ddim (Blanden et al, 2014; Blanden et al, 2016). Hefyd, oherwydd effaith 'allwthio' y ddarpariaeth gyhoeddus newydd ar y ddarpariaeth breifat bresennol, ychydig iawn o leoedd gofal plant 'newydd' a gafodd eu creu mewn gwirionedd, gan gyfyngu effaith y ddarpariaeth am ddim ymhellach. Felly, er bod cynyddu'r amser sydd ar gael i blant gyrchu gofal plant ffurfiol yn nod dymunol o bosibl, mae'n rhaid ystyried ansawdd y gofal ar ddatblygiad plant er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael yr effaith fwyaf bosibl gydol addysg y plentyn.

1.7 Mae'r gwaith ymchwil hwn yn amlygu pwysigrwydd deall amodau presennol y farchnad gofal plant yng Nghymru, a phwysigrwydd rhoi sylw dyledus i feini prawf cymhwysedd y cynnig a'r dull o'i gyflwyno. Mae gan y penderfyniadau hyn oblygiadau pwysig ar gyfer pwy sy'n gymwys i fanteisio ar y cynnig ac ar gyfer effaith y ddarpariaeth ar ganlyniadau allweddol, sef yn yr achos hwn, cyflogaeth mamau a mynediad i ofal plant ar gyfer mwy o deuluoedd difreintiedig. Hefyd, mae gan gymhwysedd oblygiadau pwysig ar gyfer y gost o gyflwyno'r polisi, a'r arbedion cost i deuluoedd sy'n deillio o ddarparu'r 30 awr am ddim. Mae'r mater hwn, a'r arbedion cost cyfyngedig disgwylidig, wedi'u modelu mewn papur gan Paull a Xu (2015). Mae Paull a Xu (2015) a gwaith ymchwil gan Blanden et al (2014; 2016) yn amlygu materion pwysig yn ymwneud ag effeithiolrwydd cyffredinol gofal plant am ddim, ac yn ystyried effeithiau polisiâu o'r fath ar ddeilliannau datblygiadol ac economaidd. Er bod y gwaith ymchwil a gyflwynir yma yn cydnabod y dystiolaeth gyfyngedig ar gost-effeithiolrwydd a deilliannau darparu gofal plant am ddim, mae'n

canolbwyntio ar sut i gyflwyno'r cynnig yn y ffordd fwyaf effeithiol i ddiwallu anghenion rhieni a phlant.

1.8 Gofynnodd yr Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar i'r Rhaglen Ymchwil Fewnol (IRP) wneud gwaith ymchwil ar safbwyntiau rhieni ar y cynnig arfaethedig. Nod y gwaith ymchwil oedd deall trefniadau gofal plant presennol rhieni, gan ofyn iddynt nodi elfennau llwyddiannus a llai llwyddiannus o'r ddarpariaeth gofal plant. Wedyn, gofynnwyd i rieni am eu safbwyntiau ar y cynnig gofal plant, a fyddent yn ystyried manteisio arno, ac a oedd angen ystyried unrhyw beth arall wrth gynllunio i gyflwyno'r cynnig. Byddai hyn yn llywio'r meini prawf cymhwysedd a'r dull cyflwyno er mwyn sicrhau bod y cynnig mor ddeniadol a phoblogaidd â phosibl.

1.9 Felly, amcanion y gwaith ymchwil oedd:

- gwella dealltwriaeth o drefniadau gofal plant rhieni ar hyn o bryd ac, yn benodol, unrhyw heriau i rieni a phlant sy'n deillio o'r trefniadau presennol;
- pwysu a mesur dealltwriaeth rhieni o addysg gynnar a'r gwahaniaeth rhwng addysg gynnar a gofal plant 'ffurfiol';
- asesu estyniad arfaethedig y cynnig gofal plant o safbwynt:
  - y model darpariaeth mwyaf dymunol;
  - y dull defnyddio a ragwelir; ac
  - y potensial a'r awydd i gynyddu oriau cyflogaeth trwy fanteisio ar y cynnig gofal plant
- defnyddio canfyddiadau'r ymchwil i wneud argymhellion i lywio'r broses o ddatblygu polisi a darparu'r cynnig gofal plant ychwanegol.

1.10 Felly, bydd y gwaith ymchwil hwn yn darparu data dangosol gan rieni er mwyn cyflwyno'r cynnig yn effeithiol. Hefyd, mae'r gwaith ymchwil hwn wedi'i ategu gan nifer o weithgareddau ymgysylltu, gan gynnwys:

- ymgyrch #TrafodGofalPlant, sy'n gyfle i rieni leisio eu barn ar y cynnig arfaethedig drwy ateb cwestiynau ar wefan Llywodraeth Cymru;
- sioe deithiol #TrafodGofalPlant sy'n ceisio lledaenu ymwybyddiaeth o'r cynnig newydd ac annog rhieni i gwblhau'r arolwg ar-lein;
- ymgysylltu â darparwyr gofal plant, gan gynnwys cynnal nifer o ddigwyddiadau rhanbarthol, grwpiau ffocws a gweminarau;
- rhai trafodaethau gyda busnesau, a grŵp ffocws yn cynnwys gweithwyr cyflogedig sy'n rhieni.

1.11 Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwaith ymchwil hwn; mae adran tri yn cynnwys trafodaeth ar ganfyddiadau allweddol y grwpiau ffocws a chyfweiliadau gyda rhieni, ac yn olaf mae adran pedwar yn crynhoi'r canfyddiadau

allweddol ac yn gwneud argymhellion penodol ar gyfer cyflwyno'r cynnig gwell ar sail materion ac ystyriaethau sy'n bwysig i rieni.

## 2. Methodoleg

2.1 Amcanion y gwaith ymchwil oedd dod o hyd i ddata manwl gan rieni yn ymwneud â'u trefniadau gofal plant presennol, a phenderfynu pa ddull fyddai'n llwyddo i berswadio rhieni i fanteisio ar y cynnig. Penderfynwyd cwblhau astudiaeth ansoddol gyda nifer o grwpiau ffocws ansoddol fel y prif ddull o gasglu data er mwyn deall trefniadau gofal plant presennol rhieni a gwarcheidwaid, eu profiad o ddarpariaeth addysg gynnar a'u safbwyntiau ar y cynnig gofal plant gwell arfaethedig. Mae grwpiau ffocws yn ddefnyddiol wrth geisio canfod safbwyntiau dangosol ar bwnc penodol gan y cyhoedd neu unrhyw grŵp amrywiol arall. Mae'r gallu i drafod pwnc gyda nifer o bobl ar yr un pryd yn ddull ymchwil cost-effeithiol; hefyd, mae'n gyfle i archwilio safbwyntiau gwahanol mewn ffordd ddynamig nad oes modd ei gyflawni mewn cyfweiliad un i un. Yn aml, gall hyn arwain at drafodaeth fanylach ac ystyriaeth fwy gofalus o'r holl faterion perthnasol. Mae modd cynnwys sampl fwy o bobl mewn grwpiau ffocws o'i gymharu â chyfweiliadau unigol, sy'n golygu bod modd ystyried amrywiaeth ehangach o safbwyntiau rhieni mewn un sesiwn.

2.2 Oherwydd natur y cynlluniau i dreialu'r cynnig gofal plant gwell mewn nifer fach o ardaloedd awdurdodau lleol ym mis Medi 2017, penderfynwyd y byddai'r IRP yn hwyluso chwe grŵp ffocws mewn lleoliadau gwahanol ledled Cymru, gan gynnwys lleoliadau trefol fel Caerdydd, Abertawe a Wrecsam a lleoliadau mwy gwledig fel Caernarfon, Llandysul a Thredegar. Dewiswyd y lleoliadau hyn er mwyn casglu profiadau a safbwyntiau amrywiaeth o gyfranogwyr sy'n byw mewn cymunedau sy'n cynnig darpariaeth gofal plant wahanol yng nghyd-destun marchnadoedd llafur lleol gwahanol.

2.3 Cynhaliwyd y grwpiau ffocws cymysg ar y cyd â chanolfannau darparu Dechrau'n Deg lleol, gan sicrhau bod modd recriwtio unigolion perthnasol a darparu lleoliad i gynnal grwpiau ffocws yn cynnwys rhieni a gwarcheidwaid lleol â phlant 1-5 oed. Penderfynwyd cynnwys rhieni a gwarcheidwaid sy'n gweithredu fel prif ofalwyr y teulu er mwyn sicrhau bod menywod a dynion yn gallu cymryd rhan a chynrychioli safbwyntiau cytbwys, er gwaetha'r ffaith fod y boblogaeth hon yn cynnwys menywod yn bennaf. Penderfynwyd y dylai'r grwpiau ffocws gynnwys rhieni a gwarcheidwaid sy'n economaidd weithgar, yn gweithio'n llawn amser, yn rhan-amser, yn hunangyflogedig neu ar absenoldeb mamolaeth, a'r rhai sy'n economaidd anweithgar. Penderfynwyd cynnwys pobl â statws cyflogaeth gwahanol er mwyn archwilio'r materion yn ymwneud â chyflogaeth rhieni, gan gynnwys profiadau rhieni a gwarcheidwaid o geisio sicrhau, cynnal a chael cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau gwaith a gofal. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws cymysg yn ystod y dydd cyn, yn ystod neu ar ôl gweithgareddau Dechrau'n Deg ar gyfer teuluoedd rhieni plant tair oed a oedd yn byw mewn dalgylchoedd Dechrau'n Deg ac yn manteisio ar nifer o weithgareddau Dechrau'n Deg yn rheolaidd.

2.4 Er mwyn annog pobl i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil a'u digolledu am eu hamser a'u costau teithio, cytunwyd y byddai angen cynnig cymhelliant ariannol, i'w dalu ar ôl i bobl gymryd rhan yn y grŵp ffocws. Cynigiwyd taleb siopau'r stryd fawr gwerth £20 i gyfranogwyr



a dderbyniodd wybodaeth am y gwaith ymchwil. Cymeradwywyd y defnydd o gymhellion ariannol gan EPS (yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus).

2.5 Er mwyn annog cyfranogiad gan rieni a gwarcheidwaid a oedd yn byw y tu allan i ddalgylchoedd Dechrau'n Deg ac nad oeddent yn gymwys i dderbyn cymorth Dechrau'n Deg, hyrwyddwyd gwybodaeth ddwyieithog am y cyfle i gymryd rhan yn y gwaith ymchwil drwy'r adnodd ar-lein ar gyfer cynllunio digwyddiadau, Eventbrite. Cafodd gwahoddiadau digwyddiadau ar-lein eu creu a'u dosbarthu i Gydgyssylltwyr Dechrau'n Deg lleol, a gofynnwyd iddynt rannu'r wybodaeth â gwasanaethau lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwybodaeth a chymorth i deuluoedd drwy Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Pwynt Teulu a Chymunedau yn Gyntaf. Cafodd y gwahoddiadau ar-lein eu rhannu â phyrth gwybodaeth ar-lein a sianeli cyfryngau cymdeithasol nifer o sefydliadau ambarél a sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n gweithio gyda theuluoedd un rhiant, teuluoedd ar incwm isel, teuluoedd cyfunol a theuluoedd LGBT neu 'enfys'. Hefyd, dosbarthwyd poster, deunyddiau ysgrifenedig a thafleuni ffeithiau dwyieithog yn ymwneud â'r grwpiau ffocws i Gydgyssylltwyr Dechrau'n Deg, a rannodd y wybodaeth â theuluoedd sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

2.6 Er mwyn cydymffurfio â'r safonau gofynnol disgwylidig yn sgil cyflwyno Safonau'r Gymraeg ym mis Mawrth 2016, gofynnwyd i Gydgyssylltwyr Dechrau'n Deg nodi dewis iaith y teuluoedd sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Cafodd cyfranogwyr a oedd wedi cytuno i fynychu'r grwpiau ffocws eu cymell i gadarnhau eu presenoldeb drwy ymateb i wybodaeth gyswllt yn y deunyddiau recriwtio dwyieithog, a rhoi gwybod i ymchwilwyr IRP am eu dewis iaith. Cynigiwyd cyfle i gymryd rhan yn y grwpiau ffocws drwy gyfrwng y Gymraeg i gyfranogwyr a oedd wedi ymateb i boster neu wahoddiad ar-lein Cymraeg neu a oedd wedi ymateb drwy sianel cyfryngau cymdeithasol Gymraeg. Cafwyd diddordeb digonol gan ymatebwyr a nododd eu bod am gymryd rhan yn y gwaith ymchwil yng Nghaernarfon drwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly roedd modd i ymchwilwyr IRP hwyluso dau grŵp ffocws ar yr un pryd, y naill trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer chwech o gyfranogwyr, a'r llall drwy gyfrwng y Saesneg ar gyfer pump o gyfranogwyr. Yn yr ardaloedd eraill, nid oedd digon o alw i gyfiawnhau cynnal grŵp ffocws trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

2.7 Dechreuwyd y broses recriwtio ym mis Hydref 2016, a pharhaodd wedyn am gyfnod o chwe wythnos. Aed ati i gysylltu a meithrin perthynas â Chydgyssylltydd a thîm darparu Dechrau'n Deg ym mhob ardal, gan egluro diben a chwmpas y gwaith ymchwil, egluro'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cyfranogwyr y gwaith ymchwil, a chytuno ar fanylion a chostau lleoliadau priodol. Anfonodd y tîm darparu e-bost gadarnhau ddwyieithog yn amlinellu manylion y grŵp ffocws arfaethedig ac yn ateb nifer o gwestiynau cyffredin. Cysylltwyd â chyfranogwyr a gofrestrwyd ar-lein drwy Eventbrite i gadarnhau eu presenoldeb yn y grŵp ffocws, a'u hatgoffa maes o law am ddyddiad ac amser y sesiynau.

2.8 Cynhaliwyd y grwpiau ffocws dros gyfnod o bedair wythnos ym mis Tachwedd 2016. Mynychwyd y grwpiau ffocws gan gyfanswm o chwe deg pedwar o gyfranogwyr. Roedd y

rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn famau plant 1-5 oed. Roedd gan y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr brofiad o ddefnyddio darpariaeth Dechrau'n Deg.

2.9 Er mwyn darparu ar gyfer unigolion a oedd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y gwaith ymchwil ond nad oeddent yn gallu mynychu grŵp ffocws yn unrhyw un o'r chwe lleoliad, cynhaliodd ymchwilwyr IRP ddau gyfweiliad ansoddol â chyfranogwyr o Abertawe a Bro Morgannwg. Atgyfeiriwyd nifer o unigolion eraill i'r IRP, neu aethant ati i gysylltu â'r IRP, ar ôl cysylltu â'r Is-adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar, neu ar ôl gweld gwybodaeth am ymgyrch ar-lein Llywodraeth Cymru, #TrafodGofalPlant, a oedd yn annog rhieni a'r cyhoedd i gysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn rhannu eu profiadau o ganfod a defnyddio darpariaeth gofal plant yng Nghymru. Roedd ymgyrch #TrafodGofalPlant ar waith gydol y gwaith ymchwil. O ganlyniad, atgyfeiriwyd nifer o unigolion nad oeddent yn gallu mynychu'r grwpiau ffocws yn un o'r chwe lleoliad ledled Cymru i'r ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ar-lein a'r blwch post cyffredinol ar wefan Llywodraeth Cymru er mwyn rhannu eu profiadau.

2.10 Yn fwy cyffredinol, mae ymgyrch #TrafodGofalPlant wedi cael nifer sylweddol o ymatebion gan rieni sy'n dymuno rhannu eu safbwyntiau ar ddarpariaeth gofal plant bresennol ac ar y cynnig newydd. Cynhaliwyd dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd gan rieni drwy'r cyfrwng hwn ar ddiwedd mis Ebrill 2017.

### 3. Canfyddiadau Allweddol

3.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'r grwpiau ffocws a chyfweliadau un i un â rhieni plant ifanc rhwng un a phump oed. Drwy fynd ati'n gyntaf i ystyried y trefniadau gofal plant sydd ar waith ar gyfer eu plant ar hyn o bryd, gallem ddeall y rhesymau pam y mae'r trefniadau hyn yn llwyddo iddyn nhw a'u teuluoedd, a'r anawsterau y maent yn eu hwynebu. Drwy hyn, roedd modd nodi problemau cyson i deuluoedd a allai gael eu datrys o bosibl drwy addasu darpariaeth y cynnig. Mae grwpiau ffocws yn hwyluso'r broses o gasglu safbwyntiau lluosog gan rieni ac ystyried sefyllfaoedd amrywiol, drwy gymharu a chyferbynnu profiadau mewn un sesiwn. Felly, maent yn gallu dweud llawer wrthym am natur unffurf neu amrywiol sefyllfaoedd mewn lleoliad penodol, sy'n gallu arwain at drafodaethau dynamig. Felly, mae grwpiau ffocws yn galluogi rhieni i rannu profiadau cyffredin o ddarpariaeth gofal plant, yn ogystal â phwyso a mesur y posibiladau gwahanol ar gyfer cyflwyno'r cynnig ar sail y profiadau hyn.

3.2 Bydd y dadansoddiad yn trafod y prif themâu a'r themâu cyson sy'n dod i'r amlwg yn sgil trafodaethau'r grwpiau ffocws, yn ogystal â materion arwyddocaol sy'n cael eu trafod yn llai eang ond sy'n berthnasol i lywio darpariaeth gofal 30 awr am ddim. Er bod grwpiau ffocws yn hwyluso trafodaethau effeithiol, nid yw'r dull wedi'i fwriadu i gynrychioli pob safbwynt, felly mae materion a drafodir yn ymddangos ar ffurf anecdotaidd yn y data. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o ymgysylltu neu archwilio er mwyn deall goblygiadau cyflwyno neu hysbysebu'r cynnig i deuluoedd cymwys, a gwneud rhagor o waith ymchwil gyda theuluoedd sydd â phlant ag anghenion penodol, fel plant anabl neu blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

#### Trefniadau Gofal Plant Rhieni Ar Hyn o Bryd

3.3 **Mae'r mathau o ofal plant a ddefnyddir gan rieni yn amrywio yn ôl amgylchiadau gwahanol teuluoedd, ymrwymadau gwaith rhieni, ac i ryw raddau, argaeledd y mathau gwahanol o ofal plant sydd ar gael yn yr ardaloedd lle maent yn byw.** Hefyd, nododd llawer o rieni ym mhob lleoliad eu bod yn defnyddio cyfuniad o fathau gwahanol o ofal plant mewn wythnos gyffredin yn unol â'u hamgylchiadau:

*Dwi ddim yn hoffi bod heb fy mhlant o gwbl, mae'n well gen i fod gyda nhw. Dyna pam dwi'n aros gyda nhw bedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Dwi ddim eisiau i bobl eraill ofalu amdany'n nhw. Dwi wrth fy modd â nhw. Dwi wedi bod gyda nhw ers y diwrnod cyntaf. Does neb arall wedi gofalu amdany'n nhw. Dwi'n hapus â hynny.*

Mam, Caernarfon

*Mae 'da fi dri o blant; mae un yn naw oed ac yn mynd i'r ysgol yn llawn amser, mae un arall yn bedair oed ac yn mynd i'r ysgol feithrin yn y bore, ac mae'r llall newydd ddechrau sesiynau Dechrau'n Deg nawr. Gobeithio bydd e'n mynd unwaith yr wythnos. Ar wahân i hynny, rwy'n dibynnu ar fy rhieni. Rwy'n hunangyflogedig ac yn gweithio'n rhan-amser, felly oni bai bod fy ngŵr gartref, bydd e'n gwarchod gyda'r nos ac ati, rwy'n dibynnau ar fy mam a nhad.*

Mam, Abertawe

*Mae plant dwy oed a hanner a saith mis oes gyda fi. Rwyf ar gyfnod mamolaeth, ond rwy'n defnyddio gwarchodwr plant am ddau ddiwrnod a fy mam am dri diwrnod achos mae'n arbed arian. Mae fy merch fach yn mynd i'r ysgol feithrin yn y bore hefyd.*

Mam, Llandysul

*Rwy'n gofalu am fy mhlant, ond mae fy mhlentyn dwy oed wedi dechrau mynd i sesiynau Dechrau'n Deg am ddwy awr a hanner bob dydd yn y bore. Mae'n rhaid i chi fyw mewn ardal cod post gymwys i gael yr oriau meithrin ychwanegol ac yn ffodus mae fy ngŵr yn gallu fforddio rhoi... ar gyfer prynhawniau ychwanegol mewn meithrinfa breifat i roi ychydig o amser rhydd i mi fel y gallaf dreulio amser gyda fy mab wyth oed. Rwy'n aros gartref gyda fe.*

Mam, Caerdydd

3.4 Mae'r dyfyniadau hyn yn adlewyrchu amrywiaeth trefniadau gofal plant rhieni, gan gynnwys: mamau'n gofalu am eu plant yn llawn amser, meithrinfeydd preifat, gofal meithrin Dechrau'n Deg<sup>5</sup>, gofal plant anffurfiol (gan neiniau a theidiau yn bennaf) a gwarchodwyr plant. **Nodwyd rhai gwahaniaethau daeryddol, mewn rhai achosion oherwydd bod rhai mathau o ofal plant ar gael i raddau gwahanol mewn ardaloedd penodol.** Er enghraifft, yn Llandysul nodwyd bod mwy o bobl yn defnyddio gwarchodwyr plant, a bod canfyddiadau pobl o warchodwyr plant yn fwy cadarnhaol:

*Am un diwrnod, ond roeddwn i'n gweithio yn [enw'r pentref] am un diwrnod yr wythnos, ac oni bai bod un o'r gwarchodwyr plant yn y pentref nad oedd ganddi leoedd gwag yn adnabod pob un o'r gwarchodwyr plant yn y pentref, byddai wedi bod yn anodd i mi gael lle. Ac yn ffodus roedd rhywun wrthi'n dechrau gweithio fel gwarchodwr plant ar y pryd ac roedd lleoedd gwag ganddi. Felly, fe lwyddais i gael lle i fy merch gyda gwarchodwr plant.*

Mam, Llandysul

3.5 Oherwydd lleoliad gwledig yr ardal hon, nid oedd llawer o leoedd ar gael mewn meithrinfeydd preifat, ac yn aml roedd yn rhaid i rieni deithio'n bell i ddod o hyd i ofal meithrin preifat. O ganlyniad, dechreuodd llawer o bobl weithio fel gwarchodwyr plant yn yr ardal, a datblygwyd rhwydweithiau gwybodaeth anffurfiol am bwy oedd yn cynnig gwasanaethau gwarchod plant. Mewn ardaloedd eraill, roedd rhieni yn dewis dulliau

<sup>5</sup> Mae Dechrau'n Deg ar gael i blant rhwng dwy a thair oed, ar gyfer teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd cymwys o Gymru. Mae plant yn derbyn hyd at 12.5 awr o ofal plant o ansawdd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.

gwahanol o ofalu am eu plant: yn Nhredegar, roedd neiniau a theidiau ac aelodau eraill y teulu yn gofalu am blant yn aml:

*Rwyf ar absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd, ac yn amlwg rwy'n gweithio'n llawn amser oherwydd rwy'n athrawes, felly byddaf yn dychwelyd i'r gwaith yn llawn amser. Ond yn ffodus, bydd fy rhieni yn gofalu am fy mhlant, felly bydd fy Mam yn gofalu amdany'n nhw am dri diwrnod, a mam fy mhartner am ddau ddiwrnod.*

Mam, Tredegar

*Rwyf wedi gorfod newid o weithio'n llawn amser i weithio tri diwrnod yr wythnos fel bod fy mam yn gallu gweithio. Mae fy mam yn nyrs feithrin gymwysedig, ond mae hi wedi symud i'r sector bancio nawr, ac mae hi'n gweithio oriau hyblyg ac yn gallu fy helpu...*

Mam, Tredegar

3.6 Mae'n ymddangos bod neiniau a theidiau yn benodol yn gwneud cyfraniad llawer mwy at ofalu am blant yn yr ardal hon, gan fynd ati weithiau i addasu eu hymrwymiaidau gwaith er mwyn diwallu anghenion gofal plant.

3.7 **O safbwynt dewis mathau o ofal plant, daeth sawl ffactor i'r amlwg fel y prif reswm dros ddewis a chyfuno gofal plant, sef: cost, lleoliad, ac addasrwydd gofal plant mewn perthynas ag ymrwymiaidau gwaith.** Cyfeiriodd llawer o rieni at gost fel un o'r ffactorau pwysicaf wrth ddewis darparwr, a pha mor aml y maent yn defnyddio darpariaeth. Pan gododd y cwestiwn o gostau gofal plant, cafwyd ymateb emosiynol iawn gan rieni, fel y dengys y dyfyniadau canlynol:

*Rwy'n talu llawer o arian; rwy'n talu £124 yr wythnos ar gostau gofal plant. Mae'n fy lladd i ... [aelodau eraill y grŵp yn cytuno] Mae'n fy lladd i ... Ac yna gyda'r nos, ... rwy'n gweithio gyda'r nos, yn dod adre tua 10pm, ar shifftiau ond rwy'n teimlo'n llythrennol fy mod i ond yn gweithio ac yn talu costau gofal plant.*

Mam, Abertawe

*Roedd rhaid i mi roi'r gorau i weithio pan gychwynnodd fy mab canol yn y feithrinfa. Roeddwn i'n gweithio oriau gwirion drwy'r amser a'r rhan fwyaf o'm cyflog yn mynd ar ofal plant, felly doedd dim pwynt yn y diwedd.*

Mam, Caernarfon

*Yma, dwyt ti ddim yn cael unrhyw gymorth ar gyfer meithrinfa breifat achos bod y cyfan yn breifat, ac mae'n costio o leiaf £900 i bob plentyn – pwy sy'n gallu fforddio hynny?*

Mam, Caerdydd

*Dyw mynd yn ôl i'r gwaith ddim yn ddewis hawdd. Mae fy nghyflog i gyd yn talu am gostau meithrinfa'r bechgyn. Mae mam-gu yn gofalu am y bechgyn un diwrnod yr wythnos, a dyna sut rwy'n clirio fy nghostau. Felly, mae'r bechgyn yn mynd i'r feithrinfa am dri diwrnod ond rwy'n gweithio pedwar diwrnod, felly ... mae fy nghyflog i gyd yn mynd ar ofal plant. Rwyf mewn cyfyng-gyngor achos mae fy ngyrfa yn bwysig i mi ond rwyf eisiau treulio amser gyda'r bechgyn hefyd.*

Mam, Bro Morgannwg

3.8 Cyfeiriodd rhieni ym mhob grŵp at y ffaith fod costau gofal plant mor uchel o'i gymharu â chyflogau cyfartalog, nes bod llawer o'r arian sy'n cael ei ennill gan famau sy'n gweithio'n rhan-amser yn cael ei ddefnyddio bron yn gyfan gwbl i dalu am ofal plant, gyda rhai'n cwestiynu a yw ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a gofalu am blant yn gwneud synnwyr ariannol. Ymddengys mai'r ffactor hwn, yn fwy nag unrhyw ffactor arall, sy'n rhwystro rhieni rhag dewis y math o ofal plant a fyddai'n fwyaf manteisiol i'w teuluoedd. Felly, mae rhieni'n tueddu i ddewis gofal plant sy'n fforddiadwy mewn perthynas ag incwm, ac mae rhai yn disodli gofal plant ffurfiol â gofal anffurfiol gan aelodau'r teulu neu ffrindiau am gyfran o'r wythnos er mwyn ceisio lleihau costau.

3.9 Ystyriaeth bwysig arall wrth ddewis gofal plant yw lleoliad y darparwr: nododd rhieni fod dewis darpariaeth yn dibynnu'n aml ar gyfleustra'r feithrinfa neu'r gwarchodwr plant mewn perthynas â'u cartref neu eu gweithle:

*Mae lleoliad y gofal plant yn bwysig hefyd. Roedd lleoliad ein gwarchodwr plant yn gyfleus oherwydd fy mod yn pasio'r lle ar y ffordd i'r gwaith.*

Mam, Caernarfon

*I mi'n bersonol, mae cael [enw'r plentyn] yn [enw'r darparwr] yn y cefn, fy mhientyn canol sy'n wyth oed bellach, mi aeth o yno pan agorodd am y tro cyntaf ac oherwydd eu bod yn yr ysgol a dwi'n gweithio yma hefyd mae'n haws i ni gyd fod yma yn ystod y dydd.*

Mam, Caernarfon

3.10 Fel mae'r ail ddyfyniad yn ei ddangos, yn aml mae rhieni'n teimlo bod sefyllfa lle mae eu plant yn mynychu meithrinfa ar safle ysgol y mae eu plant hŷn yn ei mynychu hefyd yn ddymunol oherwydd ei bod yn dileu'r angen i deithio rhwng y feithrinfa a'r ysgol, gan ei gwneud yn haws i gasglu plant oed ysgol yn brydlon.

3.11 Hefyd, mae rhieni yn ystyried argymhellion rhieni eraill wrth asesu addasrwydd darparwr i ddiwallu eu hanghenion nhw ac anghenion eu plant. Dywedodd llawer o rieni fod argymhellion personol yn ffactor allweddol wrth fynd ati i ddewis meithrinfa neu warchodwr plant. Ni chyfeiriodd llawer o rieni at asesadau o ansawdd gofal plant ar ffurf meini prawf arolygu ffurfiol fel prif ystyriaeth. Yn hytrach, mae rhieni'n llawer mwy tebygol o ystyried materion ymarferol fel lleoliad ac addasrwydd y ddarpariaeth mewn perthynas â'u hymrwymadau gwaith, yn hytrach na materion yn ymwneud ag ansawdd. Wedi dweud hynny, nodwyd gwahaniaethau clir rhwng ansawdd y mathau gwahanol o ofal plant. Mae

rhieni sydd â hawl i ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn credu bod ansawdd y ddarpariaeth hon yn well o lawer nag ansawdd gofal anffurfiol. Y rheswm am hyn yw bod rhieni'n teimlo bod gan ddarparwyr Dechrau'n Deg adnoddau gwell a staff a hyfforddwyd yn dda, a'u bod yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at wella sgiliau cymdeithasol a datblygiadol eu plant wrth eu paratoi i fynd i'r ysgol.

*Ers iddi ddechrau dod i sesiynau Dechrau'n Deg a mynd i'r feithrinfa mae hi wedi dod yn ei blaen yn wych.*

Mam, Abertawe

*Rwy'n meddwl ei bod yn wych, rwy'n meddwl ei bod yn ffantastig. Rwyf wrth fy modd â'r ddarpariaeth. Mae'r gymhareb gofalwyr i blant yn anhygoel, mae'r chwarae yn rhagorol, mae ansawdd y teganau a'r chwarae sydd ar gael yno yn arbennig ... mae'n fenter wych.*

Mam, Caerdydd

3.12 Hefyd, cafodd gweithwyr Dechrau'n Deg eu canmol gan rieni am eu gallu i nodi unrhyw broblemau datblygiadol ac anghenion ychwanegol posibl plant, a'u gallu i ddefnyddio'r gwasanaeth integredig â darparwyr iechyd ac addysgol gwahanol i sicrhau diagnosis cynnar a darparu cymorth priodol. Mae un fam yn cyfeirio at hyn wrth siarad am ei phrofiad o sicrhau cymorth ar gyfer ei mab:

*Fe nodais fy mhryderon ac fe wnaethon nhw drefnu apwyntiad... trefnodd Dechrau'n Deg asesiad cynnar iddo... Ar ôl i mi nodi fy mhryderon, fe gafodd e ddiagnosis awtistiaeth pan oedd yn ddwy oed a hanner. Pe bawn i'n dal yn y broses nawr, mae'n debyg y byddai fy mab yn saith oed cyn derbyn y cymorth sydd ei angen arno.*

Mam, Abertawe

3.13 Yn aml, mae gofal plant ffurfiol yn cael ei ystyried yn well na gofal plant anffurfiol oherwydd y canfyddiad bod y darparwyr mewn sefyllfa well i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd a phrofiadau datblygiadol i blant. Hefyd, nodwyd bod plant yn cael profiad o ryngweithio cymdeithasol â'u cymheiriaid o oedran cynnar, sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer mynd i'r ysgol. Hefyd, nododd rhieni fod gan ofal plant ffurfiol fanteision eraill, gan gynnwys cyfathrebu da rhwng y cartref a'r feithrinfa, ac, o safbwynt darpariaeth Dechrau'n Deg, y cyfle i famau ryngweithio a chreu rhwydweithiau cymorth.

3.14 Yn ôl y disgwyl, roedd y galw am ddarpariaeth Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant yn amrywio o ardal i ardal. Mewn ardaloedd sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned, fel Llandysul a Chaernarfon, roedd yr angen am ddarpariaeth ddwyieithog wedi'i integreiddio'n dda yn y cynnig gofal plant, felly roedd y galw uchel yn cael ei fodloni gan ddarpariaeth ddigonol.

*Mae popeth yn Gymraeg beth bynnag. Cymry ydi pawb yma. Mae popeth yn y Gymraeg ... felly dydyn ni ddim yn meddwl am yr elfen Saesneg mewn gwirionedd.*

Mam, Caernarfon

3.15 Fodd bynnag, yn y lleoliadau eraill lle cynhaliwyd y grwpiau ffocws, sydd â llai o siaradwyr Cymraeg, roedd croeso cyffredinol i ddarpariaeth ddwyieithog, ond nid oedd yn cael ei hystyried yn bwysicach na chost a lleoliad o reidrwydd:

*P1: Nid yw'n fater o ddewis darparwr penodol...mae fy mhlentyn yn mynd i ddarparwr Cymraeg oherwydd ei fod yn agosach.*

*NP: Reit, felly mae lleoliad yn bwysig i chi?*

*P1: Ydi.*

Mam, Wrecsam

3.16 Fodd bynnag, roedd llawer o rieni yn teimlo y byddai cyfle i ddysgu Cymraeg o oedran cynnar yn fanteisiol i'w plant, waeth a ydynt yn byw mewn cymuned Gymraeg yn bennaf ai peidio:

*Rwy'n cytuno â'r fam arall, roeddwn i eisiau rhoi cyfle i'm mhlant gymdeithasu achos dwi ddim yn Gymraes, ond rydym yn awyddus i deimlo'n rhan o'r gymuned. Mae'n helpu i baratoi sgiliau iaith plant achos byddan nhw'n mynd i'r ysgol yma ac mae'n ysgol cyfrwng Cymraeg.*

Mam, Llandysul

*Hoffwn i sicrhau eu bod nhw'n dysgu Cymraeg. Rwy'n mynd i weld a allan nhw ddysgu Cymraeg y tu allan i'r ysgol ... mae'n debyg y byddwn i am iddyn nhw aros yng Nghymru ar ôl tyfu. Felly, diolch i'r Ddeddf Iaith newydd, bydd yn ofynnol i bobl siarad Cymraeg yn y dyfodol.*

Mam, Bro Morgannwg

3.17 Fodd bynnag, y rhwystr allweddol i ofal meithrin cyfrwng Cymraeg yw'r diffyg darpariaeth mewn llawer o ardaloedd. Weithiau, mae'r diffyg darpariaeth yn effeithio ar benderfyniadau rhieni wrth ddewis ysgol ar gyfer eu plant yn y dyfodol, ynghyd â phryderon y gall fod yn anodd i blant 'ddal i fyny' â'u cyfoedion os nad ydynt wedi dod i gysylltiad â'r iaith gartref neu mewn meithrinfa (gweler tudalen 40).

3.18 Er bod trefniadau presennol rhieni yn cynnwys sawl agwedd gadarnhaol, y prif anawsterau a nodwyd oedd: cost gofal plant ffurfiol a'r her i rieni, a mamau yn benodol, i sicrhau cydbwysedd rhwng gofal plant a dychwelyd i'r farchnad lafur, neu chwilio am waith ar ôl cyfnod o fod yn fam llawn amser. Mae mamau yn teimlo bod nifer o ffactorau wedi'u rhwystro rhag dychwelyd i'r byd gwaith, a byddwn yn eu trafod isod.

### **Sicrhau Cydbwysedd Rhwng Gofal Plant a Dychwelyd i'r Byd Gwaith**

3.19 **Nododd llawer o famau fod y broses o ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cael plant yn heriol iawn oherwydd yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng eu dyheadau gyrfa a'u cyfrifoldebau gofal, a'r diffyg cymorth sydd ar gael i wneud hynny yn aml.** Roedd dwy agwedd ar hyn yn peri problemau ychydig yn wahanol i famau gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau: y broblem gyntaf oedd ceisio dychwelyd i'r farchnad lafur ar ôl cyfnod



estynedig o beidio â gweithio ar ôl cael plant, a'r ail oedd y broblem o sicrhau cydbwysedd rhwng ymrwymadau gwaith a gofal plant i'r rhai sy'n gweithio ar hyn o bryd.

3.20 Mae hanes Emma yn dangos yr heriau sy'n wynebu menywod proffesiynol sy'n ceisio dychwelyd i'r farchnad lafur ar ôl seibiant gyrfa i gael plant.

#### *Dychwelyd i'r Byd Gwaith - Emma*

*Mae Emma yn byw yng Nghaerdydd ac mae wedi bod yn fam lawn amser ers nifer o flynyddoedd ers geni ei merch dwy oed. Mae'n defnyddio cyfuniad o Dechrau'n Deg a darpariaeth feithrin breifat ar gyfer ei merch, sy'n ei galluogi i dreulio amser gartref gyda'i mab wyth mis oed. Mae'r trefniant hwn yn arbed arian iddi gan nad oes angen i'w merch fynd i'r feithrinfa drwy'r dydd. Cyn cael plant, roedd hi'n gweithio yn y sector STEM, ac yn ddiweddar mae hi wedi ceisio dychwelyd i weithio yn y sector hwnnw, yn rhannol er mwyn cynyddu ei hincwm i sicrhau bod gofal plant yn fforddiadwy, ac er mwyn ailafael yn ei gyrfa yn y sector hwnnw hefyd. Mae Emma yn teimlo nad yw mamau'n gallu fforddio costau gofal plant, a'u bod yn gorfod rhoi'r gorau i weithio er mwyn gofalu am eu plant, sy'n cael effaith ar eu gyrfaedd.*

*Mae hi wedi dechrau ymgeisio am swyddi yn y sector STEM yn ddiweddar, ond mae wedi bod yn anodd iawn iddi gael swydd. Yn ôl Emma, un rheswm am hyn yw'r ffaith nad yw wedi gweithio yn y sector ers sawl blwyddyn, ac yn wahanol i bobl eraill, mae ganddi fwllch yn ei CV. Hefyd, gan fod ganddi blant ifanc, bydd angen iddi weithio'n rhan-amser ac yn hyblyg yn unol â'u hymrwymadau gofal plant, ac mae Emma yn teimlo nad yw cyflogwyr yn cydymdeimlo â'i sefyllfa nac yn gwneud ymdrech i ystyried yr anghenion hyn. Yn ôl ei phrofiad hi, mae cyflogwyr yn disgwyl i famau drefnu gofal plant cyn ailddechrau gweithio, sy'n anymarferol yn ei barn hi o ystyried bod angen i famau wybod am eu hymrwymadau gwaith cyn talu ymlaen llaw am ofal plant. Mae'n teimlo ei bod wedi methu cael sawl swydd oherwydd y ffaith na allai drefnu gofal plant ymlaen llaw. Mae'n nodi nad yw cyflogwyr yn deall y sefyllfa sy'n wynebu mamau sy'n ceisio dychwelyd i'r byd gwaith, a bod angen i'r llywodraeth gynnig cymhellion i gyflogwyr gyflogi mamau fel ei bod yn haws iddynt gael seibiant o'r gwaith i ofalu am eu plant yn y lle cyntaf, ac yn haws iddynt dychwelyd i'w gwaith maes o law.*

*Mae wedi bod mor anodd i Emma ddod o hyd i swydd nes ei bod yn ystyried ailhyfforddi ar gyfer gyrfa wahanol. Gall hyn ei galluogi i gamu ymlaen yn ei gyrfa a gweithio oriau sy'n fwy ystyriol o deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw'n siŵr sut y byddai'n gallu sicrhau cydbwysedd rhwng astudio a gofal plant, ac nid yw'n gwybod pa gymorth ariannol a fyddai ar gael i'w galluogi i ailhyfforddi.*

3.21 Mae profiad Emma yn amlygu rhai o'r problemau i famau sy'n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a gofal plant, a'r canfyddiad bod cyflogwyr yn anfodlon cyflogi menywod â phlant gan fod mamau'n cael eu hystyried yn 'annibynadwy' os, er enghraifft, mae'n rhaid iddynt adael y gwaith i ofalu am blant sâl. Mae hwn yn brofiad rhwystredig i fenywod hynod fedrus sy'n awyddus i helpu i gefnogi eu teuluoedd yn ariannol. Mae'r ffaith bod yn well gan gyflogwyr gyflogi menywod sydd â threfniadau gofal plant ar waith cyn

dechrau gweithio yn arwain at sefyllfa anodd iawn – mae angen swydd i dalu am ofal plant, ac mae angen gofal plant i sicrhau bod cyflogwyr yn hyderus y bydd mamau yn ‘ddibynadwy’. Felly, mae Emma yn ystyried ailhyfforddi ar gyfer gyrfa sy’n fwy ystyriol o deuluoedd, ond yr agweddau negyddol posibl ar hyn yw llai o incwm i’r unigolyn, a’r sector STEM yn colli gweithiwr cyflogedig medrus.

3.22 Roedd mamau sy’n gweithio ar hyn o bryd yn cyfeirio at y broblem o drefnu cyflogaeth sy’n addas i’w sgiliau ac yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer eu hymrwymiaidau gofal plant:

*Ond wedyn, mae cyflogwyr yn dweud ‘na, mae’n rhaid i chi weithio dros y cyfnod hwn’ ac mae’n rhaid gofyn i rywun arall fynd â’r plant i’r ysgol...*

Mam, Caerdydd

*P1: Ac mae llawer o swyddi yn nodi bod angen bod yn ‘hyblyg’. Wel, mae hynny’n anodd os oes gennych chi blant.*

*P2: Dydych chi ddim yn ddibynadwy...Nid mae’n rhaid i chi fod yno iddyn nhw os ydyn nhw’n sâl. Wyddoch chi, mae’n anodd...Mae’n braf cael oriau ychwanegol, ac er y byddech chi’n hoffi’r oriau ychwanegol, fedrwch chi ddim trefnu i’w gwneud nhw. Felly mae’n anodd...*

Mamau, Wrecsam

*Ychydig iawn o gyflogwyr sydd am i chi weithio os oes gennych chi blant. Yn ystod fy nghyfweliad i, roedden nhw’n gofyn “A fyddwch chi’n gallu gofalu am eich plant yn ogystal â gweithio?” Fy ateb i oedd “Byddaf, ond bydd ychydig bach yn anodd.” Ond os ydych chi’n ffonio’r gwaith achos bod eich plentyn yn sâl, does gyda nhw ddim cydymdeimlad o gwbl...*

Mam, Abertawe

3.23 Oherwydd diffyg hyblygrwydd rhai trefniadau cyflogaeth, mae angen dod o hyd i drefniadau gofal plant amgen i fynd â phlant yn ôl ac ymlaen o’r ysgol neu’r feithrinfa. Hefyd, mae’n gallu golygu bod mamau’n gorfod chwilio am swydd arall sy’n fwy ystyriol o deuluoedd, neu roi’r gorau i weithio’n gyfan gwbl oherwydd diffyg cefnogaeth:

*Roedd yn rhaid i’r gwarchodwr plant adael am 6:30 y bore – achos dyna’r amser roeddwn i’n dechrau’r gwaith...ac roeddwn i eisiau mynd yn ôl i’r gwaith, ond roedd yn amhosibl dod o hyd i rywun i ofalu am fy mhlentyn mor gynnar yn y bore, a dyna pam bu’n rhaid i mi roi’r gorau i weithio.*

Mam, Llandysul

*Roedd yn rhaid i mi roi’r gorau i weithio ar ôl methu trefnu gofal plant i gyd-fynd â’r horiau gwaith.*

Mam, Llandysul

3.24 **Mae agwedd anhyblyg cyflogwyr tuag at oriau gwaith a diffyg cefnogaeth ar gyfer mamau sy'n dychwelyd i'r gwaith yn rhwystrau sylweddol i ddewis cyflogaeth sy'n addas i sgiliau menywod.** Mae'r broblem hon yn waeth mewn ardaloedd gwledig, fel Llandysul, sydd â llai o swyddi nag ardaloedd trefol, ac mae'n fwy tebygol o olygu y bydd menywod yn gadael y farchnad lafur yn gyfan gwbl. Mae'r angen i famau weithio'n rhan-amser, er mwyn treulio amser gyda'u plant a chadw costau gofal plant yn isel, yn ei gwneud yn anodd iddynt gamu ymlaen yn eu gyrfa hefyd, fel mae un fam yn ei nodi:

*Dyna pam does dim llawer o fenywod yn gweithio fel rheolwyr chwaith... dynion yn bennaf sy'n gwneud y swyddi hynny ... achos mae menywod yn teimlo na allan nhw fynd am ddyrchafiad... na allan nhw gael y cyfrifoldeb ar hyn o bryd achos bod ganddyn nhw blant gartref ac ati...*

Mam, Abertawe

3.25 Roedd y mamau a oedd yn gallu dychwelyd i'r gwaith ar sail trefniadau hyblyg yn teimlo'n ffodus i allu gweithio oriau hyblyg. Fodd bynnag, teimlwyd bod hyn yn effeithio ar agweddau eraill ar eu bywydau proffesiynol, fel eu safle yn y gweithle a'r canfyddiad o'u hargaeledd neu eu diddordeb mewn cyfleoedd i gamu ymlaen yn eu gyrfa:

*Mae cyfleoedd wedi codi lle mae pobl wedi cael swyddi tra fy mod i ar absenoldeb mamolaeth... Mae'n debyg ei bod wedi cymryd llawer o amser i bobl sylweddoli fy mod i wedi dychwelyd i weithio'n rhan-amser ar ôl absenoldeb mamolaeth. Mae'n cymryd llawer o amser i bobl drosglwyddo gwaith i weithwyr rhan-amser. Rwy'n gweithio pedwar diwrnod... a fyddwn i ddim yn dweud eu bod yn oriau rhan-amser byr iawn ...*

Mam, Bro Morgannwg

3.26 Wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion gofal plant presennol a chynlluniau gyrfa hirdymor, mae rhai mamau wedi ymgymryd â chyflogaeth nad oedd yn gwneud synnwyr ariannol yn y tymor byr, ond a oedd yn sicrhau cyflogaeth ddiogel a'r posibilrwydd o gynyddu eu horiau yn y dyfodol:

*Does dim pwynt i mi weithio awr a hanner y dydd. Rwy'n gweithio rhwng hanner awr wedi un ar ddeg a chwarter wedi un, sy'n tarfu ar yr holl ddiwrnod. Does dim amser i mi wneud unrhyw beth ac rwy'n ennill tua £200 ar ddiwedd y mis. Ond rwy'n awyddus i gadw'r swydd achos rwy'n gweithio i'r awdurdod lleol, ac mae'n talu pensiwn da a phopeth. Rwy'n cael yr un gwyliau â phawb arall, a phan rwy'n mynd yn llawn amser pan fydd fy merch yn hŷn, bydda i'n gallu gweithio oriau ychwanegol yno a chael oriau ychwanegol drwy'r dydd os oes swydd yn codi.*

Mam, Tredegar

3.27 Mae trafodaethau ar gyflogaeth wedi nodi problemau i famau o safbwynt chwilio am swyddi, ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a gofal plant, gallu menywod i gamu ymlaen yn eu gyrfa os ydyn nhw'n gweithio'n rhan-amser, a sicrhau bod y cydbwysedd rhwng gofal plant a chyflogaeth yn hyfyw yn ariannol. Cyfeiriwyd at ddiffyg cymorth ar gyfer

pob un o'r agweddau hyn yn gyson ym mhob sesiwn, a nodwyd bod angen i'r dull o gyflwyno'r cynnig 30 awr ystyried yr heriau posibl sy'n wynebu mamau wrth negodi oriau gwaith, yn enwedig os yw'r sefyllfa waith yn fregus, a pha mor hawdd ydyw i fenywod hynod fedrus ailafael yn eu gyrfa yn y sector y cawsant hyfforddiant ar ei gyfer, a derbyn cymorth gan eu cyflogwyr i gamu ymlaen yn eu gyrfa.

### **Darpariaeth Addysg Gynnar**

3.28 Gofynnwyd i rieni a yw eu plant yn derbyn darpariaeth addysg gynnar, amgylchiadau'r ddarpariaeth, a'u barn ar ansawdd ac effaith addysg gynnar ar ddatblygiad eu plant. Gwnaed hyn er mwyn deall a yw rhieni yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng addysg gynnar a gofal plant ffurfiol sylfaenol h.y. bod addysg gynnar yn seiliedig ar y cwricwlwm a bod cynnydd plant yn cael ei gofnodi er mwyn eu paratoi i fynd i'r ysgol. Roedd yn bwysig canfod a yw rhieni yn deall ac yn gwerthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng y mathau o ddarpariaeth gofal plant er mwyn ystyried pa gyfran o'r 30 awr am ddim y dylid ei neilltuo ar gyfer addysg gynnar, a sut y gellid ariannu hyn. Dangosodd y trafodaethau nad yw pob rhiant yn deall y drefn bresennol, ac er bod rhai yn deall y gwahaniaeth, nid oedd eraill yn ymwybodol bod cyfran o amser plant o dair oed ymlaen wedi'i neilltuo ar gyfer addysg gynnar. Fel y mae'r mamau isod yn ei nodi, nid oeddent yn ymwybodol bod eu plant yn derbyn y ddarpariaeth nes iddynt sylweddoli bod costau gofal plant wedi lleihau ar ôl pen-blwydd eu plant yn 3 oed:

*P1: Fyddwn i ddim wedi gwybod oni bai am y Feithrin. Roedd fy mhlentyn yn mynd i'r Feithrin ac roedd angen talu nes ei fod yn dair oed, ac ar ôl tair oed roedd y pris yn gostwng...*

*P2: Ie, yn yr ardal hon fe aeth y pris i lawr o £20 yr wythnos i £7.50 yr wythnos ar gyfer plant tair oed.*

Mamau, Llandysul

3.29 Gan fod addysg gynnar wedi'i darparu'n ddi-dor mewn rhai achosion fel rhan o'r ddarpariaeth gofal plant ffurfiol integredig mewn ysgolion, nid oedd yn cael ei hystyried yn elfen ar wahân, felly nid oedd llawer o rieni yn ymwybodol ohoni fel math o addysg feithrin ar wahân. Yn aml, nid oedd trafodaethau ar ansawdd gofal yn gwahaniaethu rhwng gofal meithrin safonol, ac os oedd rhieni yn deall y gwahaniaeth, roeddent yn tueddu i gyfeirio at addysg plant mewn ysgolion meithrin:

*Ie, mae plant yn dysgu am themâu gwahanol... Weithiau bydd yn para bythefnos ac yna maen nhw'n newid y thema, ond byddan nhw'n dilyn themâu gwahanol fel rhan o'r brif thema, fel y tymhorau neu rywbeth arall, felly mae'r plant yn dysgu pethau gwahanol drwy'r amser. Mae'n helpu i'w datblygu drwy'r amser, sy'n dda iawn ...*

Mam, Caerdydd

3.30 Er bod rhieni yn gallu nodi rhai o fanteision darpariaeth feithrin, a nodi'r elfen addysg gynnar mewn rhai achosion, nid hwn oedd y ffactor pwysicaf wrth werthuso pa mor addas yw eu trefniadau gofal plant cyffredinol ar hyn o bryd. Yr elfen bwysicaf yw sicrhau parhad o ran gofal eu plant drwy'r dydd, sy'n golygu'n aml darparu gofal plant rheolaidd a gofal cofleidiol fforddiadwy yn ôl yr angen.

**3.31 Mewn rhai ardaloedd Dechrau'n Deg, lle mae gan blant yr hawl i ddarpariaeth gofal plant ffurfiol rhwng dwy a thair oed, nodwyd bod y ddarpariaeth 2.5 awr yn cael ei gwerthfawrogi, ond nad yw'n ddigon i rieni wneud pethau eraill tra bod eu plant yn y feithrinfa:**

*P1: Ac mae'n para 2.5 awr...mae'n cymryd cymaint o amser i fynd â nhw i'r ysgol am 2.5 awr yn unig!*

*P2: Mae'n teimlo fel ein bod yn teithio yn ôl ac ymlaen drwy'r amser, tydi?*

*P3: Yn enwedig os oes gennych chi blentyn yn yr ysgol hefyd.*

Mamau, Wreccsam

*P1: Hoffwn i fynd yn ôl i'r gwaith*

*P2: Gweithio'n llawn amser...*

*JC: Felly, mae mwy iddi na dim ond y gallu i fynd yn ôl...mae'n rhaid cael digon o oriau rhydd i fynd yn ôl ...*

*P1: Mae angen oriau rhydd. Dydi 2.5 awr ddim yn ddigon...*

Mamau, Wreccsam

3.32 Er na fydd y cynnig hwn yn cael effaith ar sut mae darpariaeth Dechrau'n Deg yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd, mae'r sylwadau hyn yn amlygu anghenion rhieni i gael blociau gofal plant hirach fel y gallant ddychwelyd i'r gwaith neu ailhyfforddi.

3.33 I'r rhai sydd â phlant sy'n derbyn addysg gynnar fel rhan o'r Cyfnod Sylfaen, nodwyd achosion lle'r oedd darpariaeth gofleidiol i gludo plant rhwng y darparwr gofal plant ffurfiol a darpariaeth y Cyfnod Sylfaen wedi bod yn bwysig i'w galluogi i weithio oriau hirach.

Felly, fe aethom i'r feithrinfa hon ac roedd yn anhygoel a bod yn onest. Yr hyn y byddem yn chwilio amdano nawr yw'r hyblygrwydd i allu danfon a chasglu ein mab o ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen ....Roedd perygl na fyddai'n gallu mynd oherwydd yr angen i fynd ag ef yn ôl ac ymlaen. Felly, roedd hynny'n straen enfawr mewn gwirionedd. Ond roedd yn bwysig sicrhau ei fod yn barod ac yn dechrau dilyn y cwricwlwm, ac rwy'n gwybod bod y lleoliad gofal plant ffurfiol yn gweithio tuag at y nod hwnnw, ond roeddwn i am iddo fod mewn lleoliad ysgol.

Mam, Bro Morgannwg

Mae darparwr y Cyfnod Sylfaen yn cynnig yr holl ddarpariaeth yn yr un lle. Dwi ddim yn byw yng Nghaernarfon, dwi'n byw mewn pentref y tu allan i'r dref, felly dwi'n dod â hi yma oherwydd dwi'n gweithio yma. Mae'r cylch a'r feithrinfa gyda'i gilydd yn yr un lle. Ond erbyn mis Medi nesaf, bydda i am iddi fynd i [ysgol x] yn y pentref. Mae yna 'gylch' yn y pentref, ond mae ar wahân i'r ysgol. Ond mae gwasanaeth tacsï ar gael o'r cylch, felly mae'r plant yn mynd i'r cylch tan amser cinio ac wedyn mae'r cylch yn mynd â nhw i'r ysgol mewn tacsï. Bydd hwnna'n help mawr oherwydd, fel ti, dwi'n mynd allan i weithio a byddai'n amhosibl i mi fynd â hi o un lle i'r llall oherwydd byddai'n rhaid i mi wneud iawn am yr amser wedyn. Mae'n wych os yw'r holl ddarpariaeth yn yr un lle, fel sy'n digwydd yma.

Mam, Caernarfon

3.34 Mae'r sylwadau hyn yn amlygu pwysigrwydd darparu cludiant rhwng lleoliadau gofal plant ffurfiol ac ysgolion er mwyn sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar addysg gynnar, a bod rhieni yn gallu chwilio am waith neu barhau i weithio. Mae hyn yn dangos bod rhieni'n dibynnu ar y ddarpariaeth hon er mwyn sicrhau bod addysg gynnar ar gael i'w plant, a bod angen i'r broses o lunio a chyflwyno'r cynnig ystyried sut y gallai'r ddau fath o ddarpariaeth gael eu cyflwyno'n ddi-dor fel bod rhieni'n gallu manteisio ar gyfleoedd gwaith.

3.35 Ym mha ffordd bynnag y caiff addysg gynnar ei chynnwys yn y cynnig gwell, mae'n amlwg bod llwyddiant y trefniadau presennol yn dibynnu ar drefniadau cofleidiol wedi'u cydgysylltu'n dda. Hefyd, os oes modd, dylai sesiynau addysg gynnar ar gyfer plant tair a phedair oed gael eu cyflwyno yn union cyn neu ar ôl gofal plant ffurfiol safonol fel bod gan rieni flociau o amser hirach i wneud y gwaith tŷ neu ymgymryd ag astudiaethau pellach er mwyn cael cyflogaeth sgil uchel yn y dyfodol.

3.36 Mae disgrifiadau rhieni o'u trefniadau presennol yn dangos bod eu hanghenion a'u hamgylchiadau'n amrywio, a bod angen i deuluoedd fod yn hyblyg yn unol â'r amgylchiadau hyn sy'n newid yn aml. Felly, cyfeiriodd llawer o rieni at bwysigrwydd hyblygrwydd, a thrafodwyd y mater hwn mewn cyd-destunau gwahanol. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r agweddau gwahanol ar hyblygrwydd a'r angen i sicrhau bod modd addasu unrhyw gynnig er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol.

### **Pwysigrwydd Hyblygrwydd ar gyfer Rhieni**

3.37 Oherwydd natur anrhagweladwy meithrin plant, roedd rhieni'n teimlo ei bod yn hanfodol bod cyflogwyr a darparwyr gofal plant yn gweithredu'n hyblyg fel bod rhieni'n gallu gwneud trefniadau gofal plant sy'n addas i'w teuluoedd. Mae trafodaethau blaenorol wedi pwysleisio'r angen i gyflogwyr fod yn sensitif i anghenion eu gweithwyr cyflogedig er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng gofal plant a gwaith, ond roedd rhieni'n teimlo hefyd y gallai meithrinfeydd fod yn fwy hyblyg o ran pryd y maent yn darparu gofal, a sut maent yn codi tâl amdano. Roedd rhieni'n teimlo bod rheolau meithrinfeydd yn ymwneud â chodi tâl yn annheg weithiau:

*Gyda meithrinfeydd, dwi wedi sylwi bod rhaid talu hyd yn oed os ydy'ch plentyn yn sâl. Neu os ydych chi'n archebu gwyliau, dwi'n meddwl bod angen talu hanner y gost, a'r un fath dros y Nadolig. Efallai gallai meithrinfeydd fod ychydig yn fwy hyblyg yn hynny o beth.*

Mam, Caernarfon

*Mae rhai meithrinfeydd yn nodi bod hanner diwrnod yn para rhwng 7:30am a thua 1pm, a rhwng 1pm a 6:30pm, felly os nad ydych chi'n casglu'ch plant cyn 1pm mae'n rhaid i chi dalu am y diwrnod llawn. Efallai byddwch chi'n gorffen gwaith am 2pm, bedair awr cyn diwedd diwrnod llawn yn y feithrinfa, ond fyddwch chi ddim yn cael eich talu am yr oriau gofal ychwanegol y mae'n rhaid i chi dalu amdany'n nhw.*

Mam, Llandysul

*Mae'r ddarpariaeth gofal plant ar gyfer diwrnod llawn neu hanner diwrnod. Weithiau rwy'n gweithio rhwng y ddau gyfnod, felly mae'n rhaid rhoi'r plant yn y feithrinfa am ddiwrnod llawn. Mae'n gymharol ddrud i mi, byddai'n rhaid i'r ddarpariaeth fod ychydig yn rhatach. Mae hanner diwrnod yn para rhwng 7.30 am a 12pm a rhwng 12pm a 6pm. Ond rwy'n gweithio rhwng 8am a 4pm, felly mae'n rhaid i mi roi'r plant yn y feithrinfa am ddiwrnod llawn, ac mae'n llawer o ofal plant. Weithiau rwy'n dechrau am 11am ac yn gorffen am 3pm, sydd yn y canol...ond mae'n rhaid i mi dalu am ddiwrnod llawn.*

Mam, Caerdydd

3.38 Mae'r duedd i leoliadau gofal plant ffurfiol godi tâl am sesiynau a ddefnyddir yn hytrach na nifer yr oriau a ddefnyddir yn peri problemau. O ganlyniad, mae rhieni'n teimlo eu bod yn talu am fwy o ofal plant na'r hyn y maent yn ei ddefnyddio, nad ydynt yn cael gwerth am arian, a bod hyn yn cael effaith negyddol yn gyson ar gyllid teuluoedd dros amser. Mae rhieni am i arferion codi tâl meithrinfeydd fod yn decach ac yn fwy hyblyg h.y. codi tâl am oriau a ddefnyddir yn unig, a darparu gwasanaeth ychydig yn fwy hyblyg i'r rhai sy'n dechrau gwaith yn gynt.

3.39 Nodwyd pwysigrwydd parhad o ran gofal gydol y dydd yn ystod y trafodaethau; sef, trefnu bod plant yn derbyn gwasanaeth gofal plant am gyfnodau estynedig er mwyn lleihau'r angen i dalu am ofal cofleidiol a'r angen i gludo plant a'u casglu sawl gwaith. Mae hwn yn rhwystr i rieni sydd â phlant oed ysgol sydd angen teithio'n ddi-oed rhwng y feithrinfa a'r ysgol er mwyn casglu eu plant:

*Mae'n rhaid i mi adael fy mhientyn wyth oed hefyd – mae'n aros amdanaf y tu allan wrth i mi gasglu fy mab am 3.15pm, ac mae'r llall yn dod allan am 3pm, ... Mae'n rhaid i mi adael fy mab oed ysgol y tu allan... weithiau rwy'n poeni am adael fy mab y tu allan. Os yw'n oer ac yn bwrw glaw fydda i ddim yn ei adael y tu allan, felly rwy'n aros amdano ac yn dweud wrtho am frysio achos rwy'n hwyr i gasglu fy mab arall.*

Mam, Caerdydd

3.40 Gall talu am ofal plant yn ystod gwyliau ysgol ac ar ôl ysgol fod yn faich ariannol ychwanegol hefyd, gan fod rhai rhieni'n talu'n gyson am ofal meithrin a gofal cofleidiol ar ôl ysgol ar gyfer eu plant hŷn:

*JC: Felly, mae [gofal plant] yn anodd iawn yn ystod y gwyliau?*

*P1: Yn y gwyliau yn arbennig – hanner tymor. Mae'r gwyliau haf yn ddrud iawn. Mae'n costio £158 am dri diwrnod.*

*P2: Mae'n rhy ddrud.*

Mam, Caerdydd

3.41 Mae'r costau ychwanegol hyn ar gyfer gofal cofleidiol yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar deuluoedd. Mae'r pwysau hyn ynghyd â diffyg hyblygrwydd wrth ddewis gofal plant yn gallu achosi rhwystrau o safbwynt arian ac amser i rieni, yn enwedig wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng darpariaeth gofal â gwaith neu ymrwymadau i ailhyfforddi ar gyfer cyflogaeth.

### **Manteision Canfyddedig a Safbwyntiau ar y Cynnig Gofal Plant**

3.42 Gofynnwyd i rieni drafod eu safbwyntiau ar y cynnig gofal plant arfaethedig a gwerthuso sut y gallent fanteisio ar y cynnig pan gaiff ei gyflwyno'n llawn. Yn gyffredinol, roedd nifer sylweddol o rieni yn ymwybodol o'r cynnig oherwydd y cyhoeddusrwydd iddo yn y cyfryngau a'r datganiad ar leoliadau ardaloedd peilot y cynnig ychydig cyn cynnal y grwpiau ffocws. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o gamddealltwriaeth ynglŷn â manylion cymhwysedd, ac nid oedd y wybodaeth berthnasol wedi'i chadarnhau adeg cynnal y grwpiau ffocws.

3.43 Yn gyffredinol, roedd gan rieni agwedd gadarnhaol at y 30 awr o ofal plant am ddim arfaethedig. Amlinellwyd nifer o effeithiau cadarnhaol ar gyfer eu plant:

*Y cyfle i'r plant mewn gwirionedd, dysgu pethau gwahanol – fel i ni ddweud yn gynharach, y broblem o ran amseru mewn gwirionedd, ac rwy'n gwybod eu bod yn datblygu llawer mwy os ydyn nhw yno drwy'r dydd.*

Mam, Tredegar

*...byddai'n rhoi cyfle i mi fynd allan ar y penwythnos ac ati, oherwydd ar ôl gwario £600 y mis ar ofal plant, does gen i ddim arian ar ôl i wneud unrhyw beth. Felly, y cwbl rydyn ni'n ei wneud ydy mynd i'r feithrinfa a'r gwaith, mynd i'r gwely, ac yna wneud yr un peth eto drannoeth. Does gen i ddim arian i wneud unrhyw beth arall, felly hwyrach byddai'n gyfle i mi fynd â hi i'r pwll nofio - oherwydd bod popeth mor ddrud. ... byddai'n gyfle i mi fynd â hi unwaith ar y penwythnos, neu o leiaf unwaith y mis i wneud rhywbeth gwahanol, cyfle i fwynhau ychydig.*

Mam, Caernarfon



*Byddai rhywbeth fel hynny'n well i mi weithio drwy'r wythnos hefyd...achos dwi ddim yn cael cwmni fy mhlant ar y penwythnos.*

Mam, Caerdydd

3.44 Roedd rhieni'n teimlo y byddai'r oriau ychwanegol yn golygu y byddai eu plant yn treulio mwy o amser mewn lleoliad gofal plant ffurfiol, ac y byddai hynny'n helpu i wella datblygiad eu plant a'u paratoi i fynd i'r ysgol. Mae hyn yn ategu agwedd yr holl rieni ym mhob grŵp ffocws bod gofal plant ffurfiol yn fwy addysgiadol a manteisiol na chadw plant gartref, ac y byddai mwy o ofal plant ffurfiol yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar eu datblygiad. Ymddengys bod cyfyngiadau effaith addysg cyn ysgol am ddim ar ddatblygiad plant yn lleihau wrth iddynt symud drwy'r ysgol (Blanden et al, 2014). Fodd bynnag, mae rhieni'n teimlo'n gryf bod gofal plant ffurfiol yn bwysig i roi dechrau da i blant. Hefyd, roedd rhieni'n teimlo y gallai'r arian sy'n cael ei arbed drwy beidio â gorfod talu am 30 awr o ofal plant gael ei ddefnyddio i dalu am weithgareddau gyda'u plant na fyddent yn gallu eu fforddio fel arall, fel nofio neu fynd allan gyda'r teulu. Hefyd, roedd hyn yn cyd-fynd â rhieni'n cael cyfle i dreulio mwy o amser gyda'u plant. Mae rhieni'n gweithio oriau ychwanegol, ar y penwythnos yn aml, er mwyn talu am gostau byw, ac roeddent yn teimlo y gallai'r oriau ychwanegol leihau rhywfaint o'r pwysau i weithio a rhoi cyfle iddynt dreulio amser o ansawdd gyda'u plant.

3.45 Hefyd, cyfeiriodd rhieni at rai manteision iddynt hwy eu hunain ac i aelodau eraill y teulu a oedd â chysylltiad agos â'r manteision a nodwyd i'w plant:

*P1: Byddai'n helpu mwy o bobl i fynd yn ôl i'r gwaith yn bendant...*

*P2: Byddai mwy o bobl eisiau mynd allan i weithio...*

*P1: A bydden nhw'n gwybod eu bod yn ennill yr arian, eu bod yn ennill yr arian a'i gadw. Dyw e ddim yn mynd i...*

*P3:... dalu am ofal plant.*

*P1: Yn bersonol, alla i ddim fforddio gweithio'n llawn amser achos alla i ddim fforddio rhagor o oriau yn y feithrinfa.*

Mamau, Abertawe

*Felly, mae'n braf cael cyfle i fyw eich bywyd eich hun ac yna dod adref a mwynhau treulio amser gyda'r plant. Felly, mae'n bwysig i iechyd mamau eu bod yn mynd i'r gwaith ac yn cael amser iddyn nhw eu hunain. Felly, dwi'n credu y bydd y cynnig yn gwneud gwahaniaeth os ydy o'n rhoi cyfle i bobl wneud hynny.*

Mam, Caernarfon

3.46 Rhoddwyd croeso i'r posibilrwydd y byddai'r cynnig yn galluogi rhieni, a mamau yn benodol, naill ai i edrych am waith yn haws neu gynyddu eu horiau gwaith yn eu swydd bresennol heb orfod poeni am drefnu gofal amgen addas i'w plant. Byddai hyn yn fanteisiol wedyn i aelodau eraill y teulu sy'n darparu gofal plant anffurfiol:

*...rwy'n dibynnu llawer ar fy mam bob dydd Mawrth a dydd Mercher, ond dyna yw ei diwrnodau i ffwrdd, felly rwy'n dwyn ei diwrnodau rhydd i ofalu am...sy'n gwneud i mi deimlo'n euog iawn.*

Mam, Llandysul

*Hefyd, mae'n cael gwared â'r straen. Rwy'n dibynnu ar fy mam, ac mae'n rhoi llai o straen arni hi wedyn hefyd achos mae hi'n teimlo dan straen yn mynd a dod drwy'r amser, a byddai ganddi amser rhydd i wneud pethau iddi hi ei hun. Ar hyn o bryd, mae hi'n gorfod fy ffonio i a'm brawd a dweud, 'faint o'r gloch mae'n rhaid i mi fod yno? Faint o'r gloch ydych chi'n gwneud hyn?' cyn ei bod yn gallu trefnu apwyntiad gyda'r deintydd neu'r meddyg...*

Mam, Tredegar

3.47 Roedd rhyddhau'r pwysau ar neiniau a theidiau sy'n gwneud cyfraniad mawr at ofalu am wyrion yn bryder mawr i rieni hefyd. Roedd llawer o rieni'n teimlo'n euog bod neiniau a theidiau'r plant yn darparu cymaint o ofal plant anffurfiol. Roedd llawer o rieni'n ymwybodol o'r aberth sy'n cael ei wneud gan neiniau a theidiau, fel gweithio llai o oriau neu hyd yn oed roi'r gorau i'w swyddi er mwyn gofalu am blant ifanc, a gwelwyd y cynnig gwell yn gyfle i rieni ddibynnu mwy ar ofal plant ffurfiol a lleihau'r baich ar aelodau'r teulu. Yn drydydd, bu rhieni'n trafod y manteision iddynt hwy a'r teulu cyfan o safbwynt sicrhau bod y teulu cyfan yn treulio mwy o amser o ansawdd gyda'i gilydd, ac o safbwynt hwyluso trefniadau bywyd o ddydd i ddydd:

*P1: Mae'n bwysig bod gennych chi'r amser hwnnw...hyd yn oed os nad ydych chi ar eich pen eich hun yn gyfan gwbl, rydych chi gyda'ch ffrindiau...Dydy bod gyda'ch plant drwy'r amser ddim yn beth iach chwaith..*

*P2: Byddai mynd yn ôl i'r gwaith yn helpu...*

*P1:Dwi'n meddwl bod pawb yn gwerthfawrogi ei gilydd llawer mwy hefyd. Rwy'ti'n eu gwerthfawrogi os ydyn nhw wedi bod yn yr ysgol. "Dwi wedi gweld dy eisiau drwy'r dydd, ac rwy'ti'n dod adref mewn hwyliau da!" "Na!" Byddet ti'n gwerthfawrogi hynny os oeddet ti'n gweithio...Byddet ti'n teimlo'n dda amdanat dy hun, o'n byddet?*

Mamau, Wreccsam

*Ond mae'n anodd gadael cyn dechrau'r ysgol achos does gyda fi ddim cyfle i'w gweld hi'n mynd i mewn i'r ysgol ac mae'n rhaid i mi geisio cofio pwy sydd â gwasanaeth. Rydym yn cael gwasanaethau yn y boreau tan 10.30-11am, felly mae'n rhaid i mi geisio dod allan a cheisio ei gweld hi. Ond yn ffodus iawn, dyw fy mhartner ddim yn dechrau gweithio tan 10am ond mae e allan o'r tŷ tan 10pm felly ... Dyn ni ddim yn gweld ein gilydd a bod yn onest. Mae e yno pan rwy'n deffro a dyna ni. Rwy'n gadael cyn ei fod yn diuno achos dyw e ddim yn fy nghlywed yn codi felly...mae'n anodd...*

Mam, Abertawe

*Ond os wyt ti'n gallu treulio'r penwythnos gyda'r plant... Os ydi'r gofal plant wedi'i drefnu a dy fod ti'n gallu treulio'r penwythnos gyda dy bartner, dwyt ti ddim yn lladd dy hun wedyn, nag wyt...*

Mam, Caernarfon

3.48 Pwysleisiodd rhieni bwysigrwydd treulio rhagor o amser gwerth chweil gyda'r uned deuluol, fel ar y penwythnos, sy'n cael ei aberthu weithiau i'r naill riant neu'r llall fynd allan i weithio neu oherwydd nad oes digon o arian ar ôl i fynd allan. Roedd rhieni'n teimlo y gallai'r amser a'r arian a fyddai ar gael hwyluso amser o ansawdd gwell ar gyfer bywyd teuluol. Ond yn fwy na hynny, gallai'r amser ychwanegol gael ei ddefnyddio er budd rhieni yn unig, naill ai i weithio neu i gymdeithasu neu ddilyn eu diddordebau. Felly, nodwyd manteision lluosog ar gyfer rhieni a'r teulu ehangach yn sgil yr oriau ychwanegol. Roedd y manteision hyn yn ategu'r manteision i blant a drafodwyd yn gynharach, yn bennaf o safbwynt strwythuro trefn ar gyfer teuluoedd a hwyluso'r broses o drefnu amser teuluoedd yn well er mwyn datblygu cysylltiadau cynhyrchiol a gofalgwr rhwng rhieni a phlant.

### **Ystyriaethau Ychwanegol Rhieni**

3.49 Er bod rhieni wedi cyfeirio at elfennau cadarnhaol y cynnig iddynt hwy eu hunain a'u teulu yn ehangach, roeddent yn teimlo y byddai sawl agwedd ar gyflwyno'r cynnig yn cael effaith wahanol ar deuluoedd mewn amgylchiadau gwahanol. Unwaith eto, nodwyd bod angen i'r cynnig fod yn hyblyg er mwyn bod yn ddeniadol. Cyfeiriodd rhieni at bwysigrwydd hyblygrwydd a dewis wrth benderfynu sut i fanteisio ar y 30 awr:

*...mae'n bwysig sicrhau ei bod yn bosibl defnyddio'r oriau mewn ffordd hyblyg naill ai mewn ddarpariaeth cyn ysgol neu mewn meithrinfa, fel y gallwn ni fanteisio ar hynny, neu dyw e ddim o unrhyw fantais o gwbl, felly...mae angen sicrhau ei fod yn arbed arian i rieni a bod rhieni yn elwa arno ac yn gallu fforddio dychwelyd i'r gwaith, neu dyw e ddim yn newid unrhyw beth fel arall.*

Mam, Caerdydd

*P1: ...Nid rhywbeth ar gyfer un lleoliad yn unig ddylai hyn fod...Os yw ar gyfer y lle hwn yn unig, fyddai hi ddim yn gweithio na fyddai?*

*P2: Na fyddai...*

*P1: Rwyt ti angen y ddarpariaeth mewn lle sy'n gyfleus i ti ...gan gynnwys yn ystod y gwyliau.*

Mamau, Wrecsam

*Byddai'n help mawr yn fy marn i pe bai rhieni'n gallu defnyddio'r 30 awr i'w plant fynd i sesiynau Dechrau'n Deg am bedwar bore neu i'r feithrinfa am dri diwrnod ac ati. Mae angen blociau o amser sy'n gyfleus i famau...*

Mam, Caerdydd

*Mae'n mynd i wneud fy mywyd yn haws. Bydd fy mab yn derbyn gofal plant beth bynnag, felly os ydy o am ddim, bydd hynny'n fonws. Dwi'n gobeithio na fydd y 30 awr yn cael eu rhannu rhwng pum diwrnod, a'i bod yn bosibl defnyddio'r oriau am bedwar diwrnod llawn ac yna talu am y pumed. Oherwydd dydy chwe awr y dydd ddim yn ddigon bob dydd.*

Mam, Caernarfon

**3.50 Mae'r dyfyniadau hyn yn dangos bod angen i'r cynnig fod yn hyblyg ar gyfer rhieni mewn sawl ffordd.** Yn gyntaf, nododd llawer o rieni fod angen sicrhau bod y cynnig ar gael mewn nifer o leoliadau er mwyn sicrhau nad yw'r cynnig newydd yn amharu ar drefniadau presennol teuluoedd, ac y byddai modd iddynt fanteisio ar y cynnig drwy'r darparwr o'u dewis. Yn ail, roedd yn bwysig i rieni bod darpariaeth ar gael yn ystod gwyliau ysgol hefyd, pan fydd rhieni o dan bwysau ariannol ychwanegol i dalu am ofal plant ar gyfer plant eraill oed ysgol. Yn drydydd, roedd rhieni eisiau defnyddio'r 30 awr mewn ffordd hyblyg, gan ddewis nifer ac amser yr oriau ar gyfer eu plant yn unol â'u trefniadau presennol. Yn olaf, nododd rhieni y byddai angen i ofal cofleidiol gael ei addasu i gyd-fynd â'r cynnig er mwyn sicrhau parhad o ran gofal ar gyfer eu plant. I grynhoi, er mwyn sicrhau bod rhieni yn manteisio ar y cynnig yn llwyddiannus, roedd angen rhoi rhyddid iddynt ynglŷn â sut i'w ddefnyddio.

**3.51 Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r cynnig; y cwestiwn pwysicaf i rieni oedd a yw'r cynnig yn ystyried y galw ychwanegol am ofal plant a all ddeillio o'r cynnig.** Roedd hyn yn bryder penodol i'r rhai sydd eisoes yn trefnu gofal plant ffurfiol ar gyfer eu plant, sef na fyddai ganddynt yr un mynediad i ofal plant oherwydd prinder staff i ymdopi â'r pwysau ar y sector. Byddai hyn yn lleihau hyblygrwydd yn hytrach na'i wella:

*Ond byddai'r cynnig yn lleihau hyblygrwydd, o'n bydda? Os wyt ti'n gofyn am y dydd Gwener ac ati sdi, wel, mi fyddan nhw'n llawn os ydy'r gofal plant am ddim. Felly, bydd yr hyblygrwydd ar gyfer y plant sydd yma'n barod yn diflannu am na fydd y ddarpariaeth ar gael.*

Mam, Caernarfon

*Dyna fy mhryder i mewn gwirionedd...Does dim digon o gapasiti i bara 48 wythnos.*

Mam, Wrecsam

**3.52** Roedd canlyniadau canolbwyntio argaeledd y cynnig ar un math o ddarparwr yn unig, h.y. meithrinfeydd preifat, yn wael i rieni sy'n byw mewn ardaloedd lle nad yw'r ddarpariaeth hon ar gael yn eang. Roedd y rhiant hwn yn amlygu'r angen i sicrhau bod gwarchodwyr plant, a phob math o ddarparwr gofal plant, yn gallu cyflwyno'r cynnig, er mwyn sicrhau bod mynediad iddo yn addas i bawb, ac nad yw gwarchodwyr plant, y darparwr o'u dewis, yn gorfod rhoi'r gorau i'w busnes drwy beidio â gallu cynnig gofal plant 30 awr am ddim:

*Os ydy'r ddarpariaeth ar gael mewn un lle yn unig, fel 'cylch' er enghraifft, bydd gwarchodwyr plant yn colli busnes oherwydd fydd pobl yn methu fforddio mynd at warchodwyr plant os ydy'r ddarpariaeth 30 awr ar gael mewn meithrinfa yn unig. Felly, os gallen nhw drefnu bod y cynnig ar gael gan ddarparwyr o bob math, bydd hynny'n well i warchodwyr plant hefyd fel nad ydyn nhw'n colli busnes.*

Mam, Caernarfon

*Felly, os yw'n golygu bod meithrinfeydd a darparwyr gofal plant yn dechrau colli busnes ac yn gorfod cau, bydd llai o opsiynau i bawb. Fe allai wedyn achosi problem, dyna fel dwi'n ei gweld hi.*

Mam, Llandysul

3.53 O safbwynt dychwelyd i'r gwaith, roedd mamau'n pryderu y gallai dychwelyd i'r gwaith fod yn ddrud i bobl yn y lle cyntaf, er bod posibilrwydd y bydd y cynnig yn arwain at fwy o gyfle i weithio'n hirach a chynyddu incwm yr aelwyd:

*P1: Mae dechrau swydd newydd yn achosi llawer o straen, achos mae pobl yn cael eu talu fis ar ôl dechrau'r swydd fel arfer, nag y'n nhw? Felly, mae'n rhaid i chi brynu dillad gwaith, achos fydd dim dillad addas gyda chi o bosibl, ac yna talu am danwydd, gofal plant ac ati – felly mae'r mis cyntaf yn debygol o fod yn...*

*P2: Anodd.*

*P1: Felly, rwy'n meddwl y byddai'n well pe bai rhyw fath o daliad cychwynnol ar gael i'ch helpu chi...*

Mamau, Llandysul

3.54 Mae'r sylwadau hyn yn amlygu'r costau suddedig y mae'n rhaid i fenywod sy'n dychwelyd i'r gwaith eu hystyried, a'r angen am gymorth wrth iddynt ddychwelyd i'r gwaith yn y lle cyntaf, ac er mwyn eu hannog i wneud hynny. Hefyd, mae'r farchnad lafur dros y degawd diwethaf wedi mynd yn fwy ansefydlog, ac mae contractau dim oriau yn llawer mwy cyffredin. Yn aml, mae menywod yn derbyn swyddi fel hyn er mwyn gallu sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a gofal plant. Fodd bynnag, mae angen ystyried sut y gellid sicrhau bod y cynnig yn addas ar gyfer gweithwyr cyflogedig o'r fath:

*...a beth am swyddi contractau dim oriau? Oherwydd dych chi ddim yn gweithio bob dydd dan gontract o'r fath. Dyna beth roeddwn i'n ei wneud.*

Mam, Caerdydd

3.55 Yn ogystal ag ystyried dulliau cyflogaeth fwyfwy amrywiol, roedd mamau'n ystyried ailhyfforddi cyn dechrau gweithio yn eu maes arbenigedd newydd. Dywedodd llawer y byddent yn hoffi gwneud hyn, neu eu bod eisoes yn gwneud hyn, ac y byddent eisiau sicrhau eu bod yn gymwys ar gyfer y cynnig os oeddent yn derbyn hyfforddiant neu addysg i wella eu rhagolygon gyrfa:

*Beth sy'n digwydd os ydych chi eisiau dychwelyd i'r ysgol? Ond na allwch chi wneud hynny achos dyn nhw ddim am ddarparu ein gofal plant...os oes angen cymhwyster gwahanol arnoch chi er mwyn dychwelyd i'r byd gwaith, ond bod angen cymhwyster penodol i wneud hynny, allwch chi ddim dilyn y cwrs perthnasol achos does dim gofal plant gyda chi a does gyda chi ddim hawl i gael y gofal plant 30 awr.*

Mam, Caerdydd

*Ie, os alla i ddefnyddio'r cynnig yn hyblyg, ie – byddai hynny'n ddelfrydol achos alla i ddim fforddio ailhyfforddi, alla i ddim fforddio ailhyfforddi a rhoi fy mhlant yn y feithrinfa yn llawn amser...*

Mam, Caerdydd

3.56 Roedd y broblem hon yn gyffredin ym mhob lleoliad, gyda llawer o fenywod yn ystyried gyfaeodd newydd i gyd-fynd â'u hymrwymiaidau teulu a gwella eu henillion posibl. Dyma ddarpar ffynhonnell cymorth bwysig ar gyfer yr unigolion hyn wrth iddynt ddysgu sgiliau newydd, a byddai cymhwysedd ar gyfer y cynnig yn eu galluogi i hyfforddi yn syth, a gwneud cyfraniad pwysig i'r economi maes o law.

**3.57 Hefyd, trafodwyd darpariaeth Gymraeg fel opsiwn a fyddai'n cael ei groesawu gan rieni wrth benderfynu a ydynt am ddewis darparwr cyfrwng Cymraeg neu Saesneg.** Fodd bynnag, roedd rhai rhwystrau i ddefnyddio'r ddarpariaeth, sef diffyg darparwyr cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg. Dywedodd rhieni fod y ffaith nad oes darparwyr cyfrwng Cymraeg ar gael yn lleol yn cyfrannu at eu penderfyniad i beidio â defnyddio darpariaeth Gymraeg. Mae'r data yn dangos y gallai'r ffaith hon ei gwneud yn anodd i rieni ymrestru eu plentyn mewn ysgol Gymraeg oherwydd nad ydynt am i'w plant deimlo eu bod yn gorfod 'dal i fyny' â'u cyfoedion:

*Felly, mae'n bwysig bod rhieni'n gallu penderfynu a bod dewis iaith ar gael yn eu cymuned leol. Ac nad oes rhaid iddyn nhw deithio'n bell a theithio ar y bws i'r ddarpariaeth o'u dewis, dych chi'n gwybod?*

Mam, Wrecsam

*Byddem yn dewis darpariaeth Saesneg. Pe bai ar gyfer ysgolion Cymraeg yn unig...Byddwn i'n teimlo bod fy meibion o dan anfantais enfawr achos bydden nhw'n teimlo ymhell ar ei hôl hi o'i gymharu â'r rhai a fyddai eisoes wedi bod wrthi'n dysgu Cymraeg.*

Mam, Bro Morgannwg

3.58 Mae ymatebion yn dangos y gallai mwy o bobl ddewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg pe bai mynediad iddi ar gael yn fwy hwylus. Fel mae sylwadau rhieni yn ei ddangos, yn aml mae cyfleustra a hyblygrwydd yn bwysicach i rieni na sicrhau addysg ddwyieithog i'w plant. Fodd bynnag, mae'r data yn dangos y gall rhieni fod yn anfodlon newid o ddarpariaeth Saesneg i ddarpariaeth Gymraeg, neu i'r gwrthwyneb, ar ôl i'w plentyn ddechrau derbyn gofal plant ffurfiol. Wrth ystyried sut y gallai'r broses o hyrwyddo'r iaith Gymraeg gyd-fynd â chyflwyno'r cynnig, dylid rhoi sylw i lefelau argaeledd darparwyr addysg gynnar cyfrwng

Cymraeg mewn ardaloedd gwahanol o Gymru. Gall diffyg darpariaeth mewn rhai ardaloedd effeithio ar nifer y plant sy'n dod yn ddwyieithog, ac efallai bod angen ystyried sut y gellid defnyddio'r cynnig i fanteisio ar gyfleoedd i rieni ddewis addysg ddwyieithog ar gyfer eu plant.

**3.59 Yn olaf, mae angen ystyried sefyllfaoedd teuluoedd gwahanol – bu llawer o rieni yn trafod eu sefyllfa deuluol, yn enwedig fel unig rieni, gan bwysleisio'r pwysigrwydd o sicrhau bod y cynnig yn ystyried trothwyon cymhwysedd gwahanol yn ôl amgylchiadau gwahanol.** Awgrymwyd hefyd y gall fod angen cyfleu'r telerau a'r manteision mewn ffordd wahanol yn unol â lleoliad a chefnidir diwylliannol, fel y mae'r darn hwn yn ei ddangos:

*Ystyriaethau Diwylliannol – Hanes Hubert Mbula Matari*

*Mae Hubert yn dad i dri o blant ac mae'n byw gyda'i wraig yn ardal Abertawe. Mae'r ddau ohonynt yn mynd allan i weithio. Daw ei deulu o'r Congo yn wreiddiol, ac ar ôl byw yng Ngwlad Belg tan yn ddiweddar, mae ei fam yng nghyfraith wedi dod i fyw gyda'r teulu er mwyn helpu i ofalu am y plant. Roedd Hubert yn teimlo mai hwn oedd y dewis gorau i'w deulu er mwyn sicrhau bod magwraeth y plant yn cynnwys ymwybyddiaeth o'u treftadaeth ddiwylliannol. Hefyd, mae'n credu bod gofal gan aelod o'r teulu yn sicrhau bod y gwerthoedd sy'n bwysig iddynt yn cael eu trosglwyddo. Fel tad, nid oedd yn awyddus rhoi ei blant mewn meithrinfa breifat oherwydd yr adroddiadau rheolaidd yn y cyfryngau am gam-drin plant mewn sefydliadau, ac mae'n teimlo y gall fod yn anniogel i'w plant dderbyn gofal gan ddieithriaid mewn meithrinfeydd neu fathau eraill o ofal plant. Hefyd, mae Hubert yn dweud bod ei ddealltwriaeth o sut i gael gafael ar wybodaeth am ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru yn gyfyngedig, ac nad yw'n gwybod ble mae gwybodaeth gywir ar gael pe bai'n dewis rhoi ei blant mewn meithrinfa.*

**3.60** Mae'r hanes hwn yn amlygu'r problemau sy'n wynebu pobl sy'n symud i Gymru o wledydd eraill o ran cael gwybodaeth berthnasol a chywir am sut i ddod o hyd i wasanaethau gofal plant. Yn yr achos hwn, mae'r diffyg gwybodaeth wrthrychol wedi golygu bod canfyddiadau o ddarparwyr gofal plant proffesiynol yn gysylltiedig â straeon yn y cyfryngau am gam-drin plant, nes bod peryglon posibl darparwyr gofal plant wedi eu gorliwio. **Mae hyn yn amlygu'r pwysigrwydd o sicrhau bod gwybodaeth am y cynnig yn ystyried grwpiau diwylliannol gwahanol wrth hyrwyddo'r cynnig gwell. Mae angen rhagor o ymgysylltu yn y cyswllt hwn er mwyn deall sut i ddarparu gwybodaeth mewn ffordd effeithiol, gan nodi bod angen darparu gwybodaeth mewn nifer o ieithoedd o bosibl, nid yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unig.**

**3.61** Mae adran olaf yr adroddiad hwn yn dwyn ynghyd y dadansoddiad i lunio casgliadau ac argymhellion ar gyfer gwneuthurwyr polisi wrth ystyried sut i gyflwyno'r cynnig.

## 4. Casgliadau ac Argymhellion

4.1 Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau allweddol y gwaith ymchwil gyda rhieni plant 1-5 oed ledled Cymru yn ymwneud â'u trefniadau gofal plant presennol a'u safbwyntiau ar y cynnig gofal plant gwell arfaethedig. I gloi, mae'r adran yn cynnwys argymhellion ar sut y gellir ystyried y canfyddiadau hyn wrth fynd ati i gyflwyno'r cynnig.

4.2 Dangosodd y trafodaethau ar drefniadau gofal plant fod rhieni'n defnyddio darpariaeth amrywiol ar hyn o bryd, gan ddibynnu'n aml ar sefyllfa gyflogaeth rhieni ac argaeledd gwahanol fathau o ddarpariaeth yn eu hardal leol. Nododd llawer o rieni eu bod yn defnyddio darpariaeth amrywiol mewn wythnos arferol, gan gynnwys neiniau a theidiau yn aml, naill ai fel prif ffynhonnell darpariaeth gofal plant, neu i gludo plant yn ôl ac ymlaen o'r feithrinfa tra bod y rhieni'n gweithio. Y meini prawf pwysicaf i rieni wrth ddewis gofal plant oedd: fforddiadwyedd, lleoliad cyfleus o safbwynt gwaith a/neu'r cartref ac addasrwydd mewn perthynas â'u trefniadau gwaith. Roedd rhieni plant sy'n gymwys ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg yn teimlo bod y ddarpariaeth yn bwysig iawn; roedd rhieni'n teimlo bod y ddarpariaeth yn helpu i gyflymu datblygiad eu plentyn yn ogystal â darparu mynediad amserol i gymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Roedd argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn amrywio yn ôl lleoliad, ac roedd ardaloedd sydd â chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Mewn ardaloedd sydd â chyfran uwch o siaradwyr Saesneg, roedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn anghyson. Roedd rhieni'n barod i dderbyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg, er nad oedd yn flaenoriaeth uchel iddynt wrth ddewis eu gofal plant.

4.3 Wrth drafod y nod o geisio sicrhau cydbwysedd rhwng gofal plant a chyflogaeth, amlygwyd nifer o anawsterau. Cyfeiriodd llawer o rieni at ddiffyg cymorth gan gyflogwyr ar gyfer mamau sy'n ceisio cael cydbwysedd rhwng eu hymrwymadau cyflogaeth a gofal plant, a diffyg hyblygrwydd o ran caniatáu i famau adael y gwaith er mwyn gofalu am blant sâl, er enghraifft. I rai mamau, bu'n rhy anodd iddynt ddychwelyd i'r sector roeddent yn gweithio ynddo cyn cael plant, ac o ganlyniad roedd nifer ohonynt wedi ystyried ailhyfforddi ar gyfer gyrfa sy'n fwy ystyriol o deuluoedd. I'r rhai sy'n chwilio am waith ar hyn o bryd, mae diffyg dealltwriaeth a chefnogaeth gan ddarpar gyflogwyr, yn enwedig o safbwynt eu bod yn disgwyl y bydd gofal plant yn cael ei drefnu i gyd-fynd â gofynion y swydd, yn rhwystr sylweddol i fenywod sy'n ceisio dychwelyd i'r gweithle.

4.4 Hefyd, amlygodd trafodaethau'r grwpiau ffocws ddealltwriaeth anghyson rhieni o'r gwahaniaeth rhwng gofal plant ffurfiol safonol a ddarperir gan feithrinfeydd a gwarchodwyr plant, a darpariaeth addysg gynnar sy'n seiliedig ar y cwricwlwm. Y rheswm am hyn yw bod darpariaeth yn cael ei chyflwyno'n ddi-dor weithiau mewn lleoliadau ysgolion. Er bod rhieni yn credu bod manteision datblygiadol a chymdeithasol gofal plant ffurfiol yn bwysig iawn, nid oeddent yn priodoli hyn yn benodol i dderbyn addysg gynnar, ac o ganlyniad nid oedd yn brif ystyriaeth wrth ddewis gofal plant.



Roedd rhieni plant sy'n derbyn darpariaeth Dechrau'n Deg yn tueddu i fod yn gadarnhaol ynglŷn â manteision datblygiadol canfyddedig y ddarpariaeth hon, er eu bod yn teimlo y gallai'r ddarpariaeth 2.5 awr gael ei chynnig mewn ffordd fwy di-dor gyda gofal plant ffurfiol fel bod modd iddynt fanteisio mwy ar yr amser hwnnw, drwy ailhyfforddi neu ddychwelyd i'r gwaith er enghraifft.

4.5 Wrth nodi elfennau llwyddiannus ac aflwyddiannus eu trefniadau gofal plant presennol, roedd rhieni'n rhoi pwyslais mawr ar hyblygrwydd fel yr allwedd i lwyddiant eu trefniadau gofal plant. Roedd angen sicrhau bod dwy brif ffynhonnell yn barod i dderbyn egwyddor hyblygrwydd, sef cyflogwyr a darparwyr gofal plant ffurfiol, a nodwyd bod telerau prisio anhyblyg darparwyr yn golygu bod gofal plant ffurfiol yn llai cost-ffeithiol i rieni yn aml.

4.6 O safbwynt barn rhieni ar y 30 awr arfaethedig o ofal plant am ddim, nodwyd llawer o ganlyniadau cadarnhaol posibl. Roedd rhieni'n teimlo y byddai mwy o amser mewn amgylchedd gofal plant ffurfiol yn helpu datblygiad eu plant, ac y byddai gwario llai o arian ar ofal plant yn rhoi cyfle i deuluoedd gael diwrnodau allan, mynd ar wyliau a mwynhau pethau eraill. Rhagwelwyd y byddai hyn yn lleihau'r angen am weithio goramser, gan roi rhagor o amser i deuluoedd fwynhau mwy o amser o ansawdd gyda'i gilydd ar y penwythnos, gan wella'r berthynas rhwng partneriaid a phlant. Hefyd, gallai hyn leihau'r angen i neiniau a theidiau ofalu am blant, gan roi cyfle iddynt fwynhau mwy o amser iddynt eu hunain.

4.7 Fodd bynnag, roedd rhieni'n awyddus i sicrhau bod y cynnig yn ystyried nifer o faterion wrth bennu'n derfynol pwy sy'n gymwys ar gyfer y cynnig. Y materion pwysicaf oedd y gofyniad i ddefnyddio'r 30 awr mewn ffordd hyblyg, gan roi cyfle i rieni ddewis nifer yr oriau, sicrhau bod gwahanol fathau o ddarpariaeth yn gymwys er mwyn rhoi dewis i rieni, a sicrhau bod darpariaeth ar gael yn ystod gwyliau ysgol fel bod gofal plant yn fforddiadwy yn y cyfnodau hyn. Roedd rhieni eisiau'r rhyddid i benderfynu sut y byddent yn defnyddio'r cynnig.

4.8 Gofynnwyd cwestiynau a mynegwyd pryderon ynglŷn â threfniadau cyflogaeth gwahanol a chymhwysedd y rhai sydd ar gontractau dim oriau. Gofynnwyd a fyddai cymorth ychwanegol ar gael i'r rhai sy'n dychwelyd i'r gwaith, sy'n gallu bod yn broses ddrud. O safbwynt darparu cymorth ychwanegol i wella rhagolygon cyflogaeth yn yr hirdymor, roedd rhai rhieni am sicrhau bod cymhwysedd yn ymestyn i'r rhai sy'n ailhyfforddi ar hyn o bryd. Hefyd, roedd rhai rhieni'n cwestiynu a oes digon o gyllid a staff i gefnogi'r cynnig, a sut y byddai modd llenwi bylchau adnoddau. Yn olaf, roedd data dangosol yn awgrymu bod angen rhoi ystyriaeth arbennig i sut i hysbysu pobl o gefndiroedd diwylliannol gwahanol am y cynnig gofal plant wrth ei gyflwyno, gan fod gwaith ymchwil yn dangos diffyg gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael ymysg yr unigolion hyn.

4.9 Felly, amlinellir isod nifer o argymhellion yn ymwneud â'r broses o gyflwyno'r cynnig:

**1. Dylai'r cynnig gael ei gynllunio i sicrhau defnydd hyblyg gan rieni fel bod modd i gynifer o bobl â phosibl fanteisio arno.**

Mae'r gwaith ymchwil yn awgrymu y byddai'r cynnig yn apelio mwy at rieni pe baent yn gallu ei ddefnyddio mewn ffordd hyblyg i ddiwallu eu hanghenion penodol. Gallai'r broses o gyflwyno'r cynnig ystyried rhoi cyfle i rieni ddewis (i) faint o'r 30 awr y byddant yn manteisio arnynt; (ii) y ddarparwr sy'n gyfrifol am y gofal plant a (iii) sicrhau bod gofal plant ar gael yn ystod gwyliau ysgol. Hefyd, mae rhieni yn nodi ei bod yn bwysig i'r cynnig gael ei ddarparu gan amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys: meithrinfeydd preifat, gwarchodwyr plant a meithrinfeydd mewn ysgolion. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau lle mae'r dewis o ddarparwr yn gyfyngedig.

**2. Dylai'r cynnig gael ei gyflwyno mewn ffordd sy'n ystyried amrywiaeth eang o amgylchiadau cyflogaeth a hyfforddiant**

Amlygodd y grwpiau ffocws amgylchiadau gwaith amrywiol rhieni. Mae'n bosibl bod cyflogaeth mamau yn benodol yn anghonfensiynol oherwydd yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng gofal plant a chyflogaeth. Mae'n cynnwys gwaith rhan-amser, contractau dim oriau, gwirfoddoli ac ailhyfforddi. Wrth gadarnhau cymhwysedd ar gyfer y cynnig, dylai'r polisi ystyried yr amgylchiadau gwahanol ac a oes modd cynllunio'r cynnig i'w ddefnyddio mewn ffordd hyblyg gan y rhai sydd mewn sefyllfaoedd cyflogaeth ansefydlog. Hefyd, dylid ystyried hyfywedd sicrhau bod rhieni sy'n ailhyfforddi ar hyn o bryd yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth 30 awr. Byddai hyn yn llwyddo i gefnogi'r rhai sy'n ailhyfforddi ar gyfer gyrfa newydd ac yn debygol o ddychwelyd i'r farchnad lafur maes o law.

**3. Dylai'r broses o gyflwyno'r cynnig gynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gyflogwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cynnig a hyrwyddo/hwyluso cymorth fel bod cyflogwyr yn gallu cyflogi mamau sy'n dychwelyd i'r byd gwaith**

Cyfeiriodd llawer o famau at nifer o rwystrau i ddychwelyd i'r gweithle ar ôl cael plant, gyda nifer ohonynt yn nodi diffyg cymorth gan ddarpar gyflogwyr neu gyflogwyr presennol i'w galluogi i wneud hynny. Ym marn rhieni, mae yna ddiffyg dealltwriaeth o natur y rhwystrau sy'n wynebu rhieni wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng gofal plant a chyflogaeth. Gall swyddogion polisi ystyried hwyluso ymgysylltiad â chyflogwyr allweddol yng Nghymru wrth i'r cynnig gael ei gyflwyno. Byddai hyn yn ceisio cynyddu dealltwriaeth o'r cynnig a lleihau'r rhwystrau sy'n wynebu menywod wrth ddychwelyd i'r gweithle.

#### **4. Dylai'r broses o ystyried cymhwysedd sicrhau bod gwahanol fathau o deuluoedd yn gallu manteisio ar y cynnig a bod y cynnig yn gost-effeithiol ar gyfer y teuluoedd hynny**

Mae trafodaethau ar gymhwysedd a chwestiynau ynglŷn â phryd y byddai penderfyniadau ar gymhwysedd yn cael eu gwneud wedi amlygu amgylchiadau a sefyllfaoedd gwahanol teuluoedd. Dylai penderfyniadau yn ymwneud â chymhwysedd sicrhau bod y cynnig yn addas ar gyfer unig rieni a theuluoedd dau riant, a'i fod yn gost-effeithiol hefyd ar gyfer teuluoedd unig riant wrth ystyried eu horiau gwaith a'u hawl i fudd-daliadau.

#### **5. Dylid ystyried sut mae grwpiau diwylliannol gwahanol yn derbyn gwybodaeth am ddarpariaeth gofal plant, gan deilwra'r wybodaeth yn unol â hynny.**

Mae canfyddiadau dangosol gan unigolion sydd wedi mudo i Gymru wedi dangos bod llai o ymwybyddiaeth o'r system gofal plant yng Nghymru a'i manteision posibl ymysg y grwpiau hyn. Hefyd, gall fod rhai canfyddiadau negyddol o ddiogelwch ac amddiffyn plant mewn darpariaeth gofal plant gyhoeddus a phreifat. Dylai'r broses o gyflwyno'r cynnig ystyried natur a chynnwys y wybodaeth ar gyfer teuluoedd cymwys, a'r amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu sydd ei hangen o bosibl i sicrhau bod grwpiau anodd eu cyrraedd yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am dderbyn y cynnig ai peidio. Gallai hyn ystyried cyfieithu gwybodaeth i sawl iaith ac ystyried ffynonellau cyfathrebu amrywiol fel cyfrwng i gyflwyno'r wybodaeth.

#### **6. Mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod rhieni yn ffafrio trefn sy'n cyfuno addysg gynnar a gofal plant ffurfiol i hwyluso cyfleoedd i rieni wneud gwaith am dâl neu ailhyfforddi. Mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil er mwyn deall sut y gellid sicrhau hyn ar gyfer plant sy'n derbyn addysg gynnar a gofal plant ffurfiol.**

Mewn achosion lle mae plant yn derbyn cyfuniad o ddarpariaeth addysg gynnar (h.y. o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-4 oed) a gofal plant ffurfiol, dywedodd rhai rhieni fod darparu cludiant rhwng y darparwr gofal plant ffurfiol a'r ysgol sy'n darparu addysg gynnar wedi bod yn ffactor pwysig i'w galluogi i weithio. **Er na fydd y cynnig hwn yn effeithio ar ddarpariaeth Dechrau'n Deg**, dywedodd rhieni plant sy'n derbyn darpariaeth Dechrau'n Deg (gofal plant ffurfiol sydd ar gael i blant 2-3 oed mewn ardaloedd penodedig am 2.5 awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos o'r flwyddyn) fod y blociau amser byrrach yn cael eu gwerthfawrogi ond nad ydynt yn ddigon i'w helpu i ddychwelyd i'r farchnad lafur. Mae'r data yn dangos y byddai angen i'r broses o ddarparu gwasanaeth 30 awr ystyried sut y gallai addysg gynnar a gofal plant ffurfiol gael eu darparu'n ddi-dor fel bod modd i rieni weithio. Nodir bod angen ymchwilio ymhellach i ymarferoldeb darparu gwasanaeth o'r fath mewn awdurdodau lleol gwahanol yng Nghymru er mwyn deall posibiliadau a chyfyngiadau darparu gofal cofleidiol digonol.

## Ymchwil Bellach

4.10 Mae'r gwaith ymchwil hwn yn darparu gwybodaeth am flaenoriaethau a dewisiadau rhieni yn ymwneud â threfniadau gofal plant, ac i ba raddau y mae rhieni yn teimlo y byddai'r cynnig 30 awr yr wythnos yn cyd-fynd â'u trefniadau gofal plant a chyflogaeth. Fodd bynnag, mae angen ystyried rhai materion pwysig eraill wrth lunio a chyflwyno'r cynnig.

4.11 Yn gyntaf, nid yw'r gwaith ymchwil a gwblhawyd yn ystyried anghenion plant anabl neu blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Waeth a yw'r plant hyn yn mynychu darpariaeth brif ffrwd neu ddarpariaeth feithrinfa arbenigol, bydd angen ystyried gofynion penodol y teuluoedd hyn wrth ddatblygu a chyflwyno'r cynnig. Mae'r tîm polisi wedi gwneud rhagor o waith ymgysylltu â rhieni er mwyn deall y materion hyn yn well.

4.12 Yn ail, mae'r gallu i gyflwyno'r cynnig yn dibynnu ar sicrhau bod staff ac adnoddau digonol ar gael i ymateb i'r gofyniad ychwanegol a ragwelir ar gyfer lleoedd mewn meithrinfeydd. Hefyd, bydd angen adnoddau digonol er mwyn integreiddio addysg gynnar a gofal plant ffurfiol. Bydd modd dysgu mwy am y broblem hon drwy wneud rhagor o waith ymchwil gyda darparwyr, gan nodi sut y gellir mynd i'r afael â'r broblem er mwyn cyflwyno'r cynnig mewn ffordd deg ledled Cymru.

4.13 Yn olaf, mae angen cwblhau gwerthusiad er mwyn monitro cynnydd y gwaith o gyflwyno'r cynnig, faint o bobl sy'n manteisio ar y cynnig, a deilliannau'r plant sy'n manteisio ar y ddarpariaeth 30 awr. Bydd hyn yn darparu data sylfaenol cywir a'r gallu i fonitro effeithiolrwydd y cynnig er mwyn penderfynu a yw'n targedu'r teuluoedd y mae'n ceisio eu helpu. Hefyd, bydd yn penderfynu a yw'r cynnig wedi'i gyflwyno mewn ffordd deg ledled Cymru, gan sicrhau bod modd ei addasu er mwyn cyflawni ei amcanion.

## Llyfryddiaeth

Blainey, S., a Paull, G., (2017) *Study of Early Education and Development (SEED): The cost and funding of early education*. Department for Education and Frontier Economics

Blanden, J., et al (2014) *Evaluating a demand-side approach to expanding free preschool education*. Papur Cynhadledd, Royal Economic Society Conference 2015.

Blanden, J., et al (2016) Universal pre-school education: the case of public funding with private provision. The Economic Journal 126: 682-723

Llywodraeth Ei Mawrhydi (2006) *Deddf Gofal Plant 2006*. Dolen:  
[http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/21/pdfs/ukpga\\_20060021\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/21/pdfs/ukpga_20060021_en.pdf)

Trysorlys Ei Mawrhydi (2004) *Choice for parents: the best start for children*. Llundain: Dolen  
Trysorlys Ei Mawrhydi: [http://dera.ioe.ac.uk/5274/2/02\\_12\\_04\\_pbr04childcare\\_480-1.pdf](http://dera.ioe.ac.uk/5274/2/02_12_04_pbr04childcare_480-1.pdf)

Paull, G., a Xu, X., (2015) *Childcare Policy Options for Wales*. Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.

Rutter, J., (2015) *Childcare Costs Survey 2015*. Family and Childcare Trust.

Waldfoegel, J., a Garnham, A., (2008) *Childcare and child poverty*. Sefydliad Joseph Rowntree.

## **Atodiad A**

### **Diffiniadau Gofal Plant**

#### **Addysg gynnar**

Mae gan blant yr hawl i addysg gynnar drwy gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen cyn dechrau mynychu addysg orfodol y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu o leiaf 10 awr yr wythnos am ddim o ddarpariaeth feithrin y Cyfnod Sylfaen i bob plentyn 3 i 4 oed; gall y ddarpariaeth hon fod mewn ysgol gynradd (feithrin) a gynhelir neu mewn lleoliad a ariennir nas cynhelir.

#### **Cylch Meithrin**

Mae Cylch Meithrin yn gylch chwarae cyfrwng Cymraeg, gyda dros 500 ledled Cymru. Cyddrefnir gan elusen addysg gynnar cyfrwng Cymraeg, Y Mudiad Meithrin. Nod y Cylch Meithrin yw hyrwyddo addysg a datblygiad plant o ddwy oed i nes iddynt gychwyn ysgol. Pwysleisir dysgu drwy chwarae a datblygu sgiliau iaith Gymraeg pob plentyn.

#### **Gofal plant ffurfiol**

At ddibenion y cynnig, mae gofal plant ffurfiol yn cyfeirio at ofal plant a reoleiddir, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o ddarpariaeth wahanol, sy'n destun safonau gofynnol cenedlaethol ac yn cael ei rheoleiddio a'i harolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Nod y safonau gofynnol cenedlaethol yw hwyluso dull gweithredu hyblyg sy'n galluogi darparwyr i ddatblygu darpariaeth o safon yn unol ag anghenion plant, rhieni a chymunedau lleol. Maent yn ceisio adlewyrchu anghenion plant rhwng 0 a 12 oed, a dylid eu rhoi ar waith mewn ffordd gymesur.

#### **Dechrau'n Deg**

Rhaglen y blynyddoedd cynnar ar gyfer teuluoedd â phlant o dan 4 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru yw Dechrau'n Deg. Mae rhan o'r rhaglen Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o safon, sy'n cael ei gynnig i rieni pob plentyn 2-3 oed cymwys am ddwy awr a hanner y dydd, 5 diwrnod yr wythnos am 39 wythnos. Hefyd, dylai o leiaf 15 sesiwn gael eu darparu ar gyfer teuluoedd yn ystod gwyliau'r ysgol.